

Gwlad, Gwlad.



Mae’r cylchgrawn hwn ar gael mewn Saesneg ac Almaeneg hefyd. Ni all Croeso Cymru warantu cywirdeb na dibynadwyedd yr wybodaeth yn y cyhoeddiad ac felly mae’n ymwρθod ag unrhyw gyfrifoldeb dros unrhyw wall, esgeulustod neu gamliwiad. I’r fath raddau ag y caniateir hynny gan y gyfraith, mae pob atebolrwydd ar gyfer colled, siomedigaeth, esgeulustod neu ddifrod arall a achoswyd gan ddibyniaeth ar yr wybodaeth yn y canllaw hwn wedi ei elithrio. Fe’ch cynghorir i wirio’r holl fanylion a gwybodaeth gyda’r busnesau dan sylw cyn cadarnhau. Cedwir pob hawl. Ni ddylid atgynhyrchu deunydd yn y cyhoeddiad hwn ar unrhyw ffurf heb ganiatâd deilliaid yr hawlfraint – cysylltwch â Croeso Cymru. Nid yw unrhyw farn a fynegir yn *Gwlad*, *Gwlad* o reidrwydd yn eiddo i Croeso Cymru.

Cyhoeddir *Gwlad*, *Gwlad* gan Croeso Cymru, adran Twristiaeth a Marchnata Llywodraeth Cymru 2017. Croeso Cymru, Llywodraeth Cymru, Canolfan QED, Y Brif Rodfa, Ystâd Ddiwydiannol Trefforest, Trefforest, Pontypridd CF37 5YR.

ISBN Print: 978-1-4734-7824-4
ISBN Digidol: 978-1-4734-7823-7
Rheolwr Golygyddol: Iestyn George.
Golygydd: Charles Williams.
Cyfranwyr: Caroline Davies, Ben Miller, Ceri Cunningham, Iwan Edwards, Rachel Atherton, Julia Horton-Powdrill, Luke Hemfrey, Anand George.
Dyluniwyd gan Departures.
Argraffwyd gan Deltor Communications Ltd.
Ffotograffiaeth: Hawlfraint y Goron (2016) Croeso Cymru.
Rhoddir credyd i ffynonellau ffotograffig eraill yn y cylchgrawn.
Darlun y clawr: Tamer Koseli.

Rydyn ni eisiau i bobl gael profiadau gwych yng Nghymru. Os ydych chi’n anelu am y mynyddoedd, darllenwch gyngor lleol. Os ydych chi’n mynd i’r traeth, gwiriwch y llanw. Os ydych chi’n clymu eich hun i wifren wib 100mya (161km/a), gwrandewch ar gyngor yr hyfforddwyr. Maen nhw’n deall eu pethau. Synnwyr cyffredin, mewn gwirionedd. Felly dewch i fwynhau, a hynny’n ddiogel, wrth ddarganfod angerdd #GwladGwlad.

Mae’r cyhoeddiad hwn ar gael mewn Braille, print bras, a / neu sain gan Croeso Cymru. info@croesocymru.com

WG30055 Hawlfraint y Goron 2017, Croeso Cymru **OGL**

Cymru.

Blwyddyn Chwedlau 2017

Gwlad, Gwlad.

04	Gwlad Chwedlau
08	Syniadau Epic
12	Digwyddiadau Mawr
14	Gwlad Cestyll
16	Yr Arfordir
20	Taith Trwy Amser
24	Gwlad Fawr
28	Bwyd a Diod
32	Dyddiadur Digwyddiadau

Llawlyfr Teithio.

38	Ble i ddechrau...
40	Betws-y-coed
42	Biwmares
44	Conwy
46	Blaenau Ffestiniog
48	Abersoch
50	Dinbych
52	Machynlleth
54	Aberystwyth
56	Llandrindod
58	Aberteifi
60	Tyddewi
62	Dinbych-y-pysgod
64	Talacharn
66	Llandeilo
68	Aberhonddu
70	Y Fenni
72	Merthyr Tudful
74	Abertawe
76	Y Bont-faen
78	Caerdydd

Gwybodaeth Ddefnyddiol.

82	Ein hardaloedd gwyliau
84	Cyrraedd Cymru
86	Teithio o amgylch Cymru
88	Rhagor o wybodaeth
90	Map o Gymru

Gwlad, Gwlad.

Yn 2017, rydym ni’n dathlu ein gorffennol, ein presennol a’n dyfodol epic yn fwy nag erioed o’r blaen, drwy gyfrwng atyniadau, digwyddiadau a gweithgareddau mewn lleoliadau chwedlonol ledled Cymru. Rydym ni’n trwytho ymwelwyr yn ein stori epic, ac yn creu profiadau newydd chwedlonol. Dyma Flwyddyn Chwedlau Cymru. Ac er mai dyma wlad y cestyll a’r Brenin Arthur, dyma hefyd wlad anturiaeth fawr a digwyddiadau ar raddfa fyd-eang. Yn fwy na dim, mae Cymru’n lle rhagorol i’w fwynhau heddiw. Eleni rydym ni’n creu chwedlau newydd. Dewch i ddarganfod!

Llawlyfr Teithio.

Ble mae cychwyn? Deuparth gwaith ei ddechrau, felly dyma 20 lle i fynd iddynt yng Nghymru yn 2017. Dyma ddetholiad blas o drefi a dinasoedd, a’r ardaloedd cyfagos, o Fôn fendigedig i gyffro a phrysurdeb Caerdydd, prifddinas ieuengaf Ewrop. Rhyngddynt, mae digonedd o arfordir, cefn gwlad a mynyddoedd i’ch denu am... wel, am byth. Rydym wedi awgrymu llefydd i fwyta, yfed, chwarae ac aros, ond mae ‘na lawer mwy i’w cael. Yn gyfleus iawn, mae’r cyfan ar ein gwefan: croeso.cymru.

Gwybodaeth Ddefnyddiol.

Erbyn i chi gyrraedd fan hyn yn y cylchgrawn, rydych chi’n sicr mai Cymru yw’r lle gorau. Felly bydd angen tipyn o gyngor arnoch i ddod o hyd i’ch ffordd o gwmpas. Dyma’r holl wybodaeth angenrheidiol am ein 13 o ardaloedd gwyliau gwahanol, sut i deithio i Gymru ac o gwmpas a sut i sicrhau eich bod chi’n llogi’r llety gorau. Ac i gloi, mae ‘na fap ar eich cyfer. I ffwrdd â ni!

Llwybr y Mwynwyr ger Llyn Llydaw, Crib Goch, Eryri

Cymru. Oes, mae yma wlad hynafol, â hanes a chwedlau ymhob twll a chornel. Dyma wlad mynyddoedd mawreddog ac wybrennau eang, ac ar hyd ei hymylon ceir arfordir sy'n enwog am ei harddwch. Rydyn ni'n siarad iaith sy'n gyswllt byw â'n cyndeidiau Celtaidd. Ond dyma wlad meddyliau epic ac anturiaeth fawr hefyd. Ble bynnag yr ewch, fe brofwch chi syniadau newydd llachar mewn hen, hen lefydd.

Gwlad Chwedlau.

BU’R DDRAIG GOCH YN SYMBOL O GYMRU ERS 2,000 O FLYNYDDOEDD.



- 01 Castell Caerffili
- 02 Ynys Llanddwyn
- 03 Y Fonesig Shirley Bassey
- 04 Y dylunydd Bethan Gray
- 05 Stadiwm Principality, Caerdydd



Arweiniwyd gwrthryfel mawr gan Owain Glyndŵr rhwng 1400–1415.



Chwedlau hen a newydd.
Gallwch ddarganfod stori hanesyddol ynghlwm â phob llyn, craig a bryn yng Nghymru bron â bod. Mae ambell un yn chwedl gyfoes hefyd – pobl a gyfoethogodd y byd â’u dyfeisgarwch a’u creadigrwydd. Dyma un neu ddau o’n ffefrynnau.

Y ddraig goch	Owain Glyndŵr
Fe'i gwelwch ym mhob man: bu'r ddraig goch yn symbol o Gymru ers dwy fil o flynyddoedd, yn cyhwan uwchlaw llwythau Celtaidd, tywysogion Cymreig a brenhinoedd Tuduraidd. Yn ôl y chwedl, bu brwydr ffyrnig rhwng draig goch a draig wen islaw rhyw gastell, ond y Rhufeiniaid sy'n gyfrifol am y faner, yn ôl haneswyr.	Y tywysog-filwr, a anfarwolwyd gan Shakespeare yn <i>Henry IV Part 1</i> , oedd arweinydd gwrthryfel mawr olaf y Cymry yn erbyn y Saeson, ar ddechrau'r 15fed ganrif. Ni ŵyr neb am ei farwolaeth – mae'n aros ei gyfle i ddod yn ôl!
Santes Dwynwen	Stadiwm Principality
Chafodd y Dywysoges Dwynwen fawr o lwc ym myd serch, felly aeth yn lleian er mwyn gweddïo y câi cariadon ifanc fwy o lwc na hithau. Dyna sut y daeth Dwynwen yn nawddsant cariadon Cymru; dathlwn ei dydd gŵyl bob blwyddyn ar 25 Ionawr. Mae Ynys Llanddwyn ym Môn yn llecyn hudolus ble gallwch weld adfeilion hardd Eglwys Llanddwyn.	Efallai nad dyma'r UNION goncrit o'n cwmpas, ond hwn yw'r tir sanctaidd ble sgoriodd Gareth Edwards gais enwog i'r Barbariaid yn erbyn Seland Newydd ym 1973. Dyma hefyd ble y sgoriodd cawr pêl-droed Cymru, Ian Rush, ei gôl hudol ym 1991 pan gurodd Cymru yr Almaen, Pencampwyr y Byd.
Dewi Sant	Cewri modern
Mae Dydd Gŵyl Dewi, 1 Mawrth, yn dipyn o beth yma, wrth i ni ddathlu ein nawddsant cenedlaethol ag eisteddfodau ysgol, cyngherddau a gorymdeithiau. Esgob o'r 5ed ganrif oedd Dewi, a sefydlodd eglwys gadeiriol Tyddewi, ynghyd â sawl mynachlog yng Nghymru a Llydaw.	Gwnaeth y Cymry argraff fawr ar ddiwylliant y byd. Actorion fel Richard Burton, Syr Anthony Hopkins a Catherine Zeta Jones, cantorion fel Syr Tom Jones a'r Fonesig Shirley Bassey, a'r arwres Baralympaidd y Fonesig Tanni Grey-Thompson. Cewri llenyddol fel Dylan Thomas a Roald Dahl, yr eicon ffasiwn Laura Ashley, yr athronydd Bertrand Russell – ac roedd 16 o lofnodwyr Datganiad Annibyniaeth yr Unol Daleithiau o dras Gymreig.
Y Brenin Arthur	Cewri'r dyfodol
Yn ôl y chwedl, roedd Arthur yn rhyfelwr Prydeinig a fu'n brwydro goresgyniad y Sacsoniaid tua 500 OC. Brin ganrif yn ddiweddarach, roedd yn cael ei glodfori mewn cerddi a chwedlau, a rhywsut, enillodd gyfaill goruwchnaturiol – Myrddin y dewin.	Bellach, esgynnodd cenhedlaeth newydd o Gymry ar lwyfan y byd. Yr actorion Michael Sheen, Matthew Rhys, Ioan Gruffudd, Iwan Rheon ac Erin Richards. Syr Bryn Terfel, bas-bariton gorau'r oes fodern. Sêr chwaraeon fel Gareth Bale, Jade Jones a Syr Dave Brailsford. Y dylunydd Bethan Gray a'r ffisegydd CERN Lyn Evans. Pob un yn arbenigwr yn ei faes.
Carn Ingli	
Mae gan 'fynydd yr angylion' olygfeydd godidog dros arfordir Penfro a Mynyddoedd Preseli, sef lleoliad gwreiddiol y cerrig gleision sy'n rhan o Gôr y Cewri.	



Cymerwch ddarn o Gymru, ychwanegwch ddiferyn o ddychymyg, a dyma greu rhywbeth anhygoel. Rhoddodd natur fynyddoedd, clogwyni a choedwigoedd i ni, ac fe’u troesom yn feysydd chwarae cyffrous. Mae yma ddrysfeydd hynafol, gwylliau cerddoriaeth mewn coedwigoedd, rasis i fyny (ac i lawr) ein mynyddoedd talaf... Mae ein syniadau’n tyfu bob blwyddyn, ac yn mynd yn fwy mentrus hefyd. Bellach, daw pobl o bob cwr o’r byd i saethu ar hyd gwifren wib gyflymaf y byd uwchlaw hen chwarel lechi a syrffio tonnau perffaith – mewn dyffryn! Dyma flas o’r anturiaethau di-rif y gallwch eu mwynhau yng Nghymru.

Pum maes chwarae antur.

01—
Zip World
Mae Sean Taylor, cyn Gomando gyda’r Môr-filwyr, a’i dîm wedi creu 11 antur mewn tri lleoliad godidog yng Ngogledd Cymru, gan gynnwys gwifren wib gyflymaf y byd, sydd hefyd yn addas ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn trwy drefniant ymlaen llaw.
zipworld.co.uk

02—
Surf Snowdonia
Bob munud, bydd ton berffaith 6 troedfedd (2m) o uchder yn rholio i lawr dyffryn yn Eryri. Hen ffatri alwminiwm oedd yma gynt; ond bellach mae’n baradwys i syrffwyr.
surfsnowdonia.co.uk

03—
BikePark Wales
Roedd rhai o lwybrau beicio mynydd gorau’r byd yma eisoes, ond adeiladwyd y parc hwn yng Nghymoedd y De gan feicwyr, er budd beicwyr, gan wahodd pawb, o’r eithafol i’r hamddenol, i fynd ar eu beic.
bikeparkwales.com

04—
Bounce Below
Mewn ogof lechi maint eglwys gadeiriol yng Ngogledd Cymru, cysylltir tair haen o rwydi cargo sbonciog â llithrennau ac ysgolion. Mae’n brofiad rhyfeddol.
zipworld.co.uk

05—
Dŵr Gwyn Rhyngwladol Caerdydd
Wrth gwrs bod dŵr brochus yn ein hafonydd. Ond mae’r dyfroedd hyn, o safon Olympaidd, yn rhuo a rhaeadru ar hyd cwrs artiffisial ym Mae Caerdydd; lle delfrydol ar gyfer anturiaethau rafftio a chaiacio.
dgrhc.com

ANTURIAETHAU MAWR MEWN MANNAU HARDD.



- 01 Gwersylla ar glogwyn
- 02-03 Canŵio ar Afon Gwy
- 04 Abereiddi
- 05 Surfability UK



Delwedd gwersylla ar glogwyn trwy garedigrwydd Gaia Adventures.



Rheilffordd Eryri yw rheilffordd dreftadaeth hiraf y Deyrnas Unedig.



Anturiaethau yng Nghymru.
Mae antur yn golygu rhywbeth gwahanol i bawb, ond does dim rhaid bod mor ffit ag athletwr Olympaidd i fwynhau antur yng Nghymru. Dyma ddetholiad bychan o'r dewisiadau y gallwch chi eu hystyried.

Ffordd Brailsford

Mae Syr Dave Brailsford yn un o arwyr beicio Prydain, a cheir dau lwybr beicio, 50 a 75 milltir o hyd (80 a 121km), sy'n dangos holl ryfeddodau ardal ei fagwraeth yn Eryri.
ymweldageryri.info

Gwersylla ar glogwyn

Dyma wersylla gwyllt ar ei wylltaf: treuliwch noson ar silff symudol, yng nghrog oddi ar wyneb y graig, ymhell uwchben tonnau arfordir Môn.
gaiaadventures.co.uk

Rheilffordd Eryri

Dyma sut i deithio mewn steil drwy Eryri, i fyny drwy harddwch Pas Aberglaslyn hyd at odrau'r Wyddfa ei hun. Mae gan bob tren ramp cadair olwyn.
festrail.co.uk

Traphont Ddŵr Pontcysyllte

Mae Camlas Llangollen yn codi i'r entrychion dros draphont ddŵr fwyaf Prydain. Yn y Saffle Treftadaeth y Byd UNESCO hwn, dim ond tipyn go lew o awyr iach Cymru sydd rhyngoch chi ac Afon Dyfrdwy ymhell islaw.
pontcysyllte-aqueduct.co.uk

Ceunanta

Cerdded ceunentydd, sgramblo dros geunentydd, ceunanta... beth bynnag yw eich enw chi arno, dyma ffordd llawn sbort o ddarganfod ein hafonydd mynyddig. Mae 'Gwlad y Sgydau' ym Mannau Brycheiniog yn lle arbennig i roi cynnig arni.
bannaubrycheiniog.org

Saffari mewn canŵ

Prin fod afon harddach ym Mhrydain gyfan nag afon Gwy, ac mae'n bosib mynd ar y ddŵr am 100 milltir (161km) o'r Clas-ar-wy i Gas-gwent; gallwch gael blas ar y profiad drwy fynd am dro hamddenol 5.5 milltir (8.9km) o amgylch y Gelli Gandryll.
hay-on-wye.co.uk

Arfordira

Yma yng Nghymru y dyfeisiwyd y gamp antur hon: mae'n gyfuniad cyffrous o nofio, sgramblo a neidio ar hyd yr arfordir, yn arbennig felly yn y Lagŵn Glas yn Abereiddi. Mae'n agored i bawb hefyd: gall Celtic Quest deilwra antur sy'n addas i unrhyw anabledl dysgu a / neu gorfforol bron.
visitpembrokeshire.com
celticquestcoasteering.com

Surfability UK

Nod Surfability yw gwneud syrffio'n hwyl ac yn hygyrch i bobl ag anabledau. Cynigir eu gwersi, a addaswyd yn arbennig, ar donnau dan do canolfan hamdden LC2 Abertawe neu allan ar draethau hardd Gŵyr.
surfabilityukcic.org



Digwyddiadau Mawr.

Dychwelyd Adref Ewro 2016, Caerdydd

Mae Cymru'n cynnal digwyddiadau ar raddfa fawr: cynullïadau byd-eang fel Cwpan Ryder, Uwchgynhadledd NATO a Chwpan Rygbi'r Byd, yn ogystal â gwyliau rheolaidd fel Gŵyl y Gelli, y Dyn Gwyrdd, Gŵyl Rhif 6 a'r Eisteddfod Genedlaethol. Rydyn ni'n dwli ar chwaraeon, boed hynny ar ffurf Ironman neu Felothon, neu rygbi rhyngwladol yn un o stadia gorau'r byd. Dyma rai o uchafbwyntiau 2017, yn cynnwys y digwyddiad chwaraeon blynyddol sy'n cael ei wylïo gan y nifer fwyaf o bobl: Gêm Derfynol Cynghrair Pencampwyr UEFA.

25 Mai–4 Mehefin, y Gelli Gandryll
Gŵyl y Gelli

Eleni yw'r ddegfed ŵyl ar hugain, ac mae'n dal i ddenu awduron a meddylwyr mwya'r byd i'r dros 900 o ddigwyddiadau sy'n digwydd dros 10 niwrnod. Cewch wledd o fwyd a diod, golygfeydd ysgubol a digonedd o lyfrau hefyd, wrth gwrs. hayfestival.com

3 Mehefin, Caerdydd
Gêm Derfynol Cynghrair
Pencampwyr UEFA

Daw gêm fwyaf clybiau pêl-droed i'n stadiwm genedlaethol yng Nghaerdydd, am benwythnos bythgofiadwy o chwarae, joio gyda'r cefnogwyr, adloniant byw a cherddoriaeth. Yn ogystal, cynhelir Gêm Derfynol Pencampwriaeth Merched UEFA yng Nghymru am y tro cyntaf, yn Stadiwm Dinas Caerdydd, ar 1 Mehefin. uefa.com

9 Gorffennaf, Caerdydd
Felothon Cymru

Mae'r digwyddiad chwaraeon hwn yn eich tywys ar hyd 87 milltir (140km) o olygfeydd godidog, ble bydd cefnogwyr yn eich annog ar hyd ffyrdd di-draffig hyd at y llinell derfyn ynghanol y ddinas. Ceir fersiwn 68 milltir (110km) hefyd, sy'n hepgor ymdrech eithafol dringfa'r Tymbl. velothon.ironman.com

26–30 Gorffennaf, Royal Porthcawl
Pencampwriaeth Agored Hŷn

Daw mawrion y byd golff i gystadlu am y tlws gwerthfawr hwn ar un o'n cyrsiau mwyaf godidog, â golygfeydd o'r môr ar bob twll. europeantour.com/seniortour

17–20 Awst, Crucywel
Gŵyl y Dyn Gwyrdd

Mae lleoliad ysblennydd y Dyn Gwyrdd yn denu 1,500 o berfformwyr i'r digwyddiadau 24 awr, comedi, barddoniaeth, llenyddiaeth, teithiau cerdded bywyd gwyllt, a pheth o'r gerddoriaeth orau sydd ar gael, o sêr cyfoes blaengar i ambell gawr o'r gorffennol. greenman.net

3–10 Medi
Tour of Britain

Daw prif ras feicio Prydain i Gymru bob blwyddyn, ar gyfer y rhannau mwyaf heriol fel arfer. Dyw'r llwybr ddim wedi'i gadarnhau eto, ond bydd yn siŵr o gynnwys dringfeydd serth. tourofbritain.co.uk

26–29 Hydref
Rali Cymru GB

Cynhelir rhan Brydeinig Pencampwriaeth Rali'r Byd yr FIA dros dridiau cyffrous ymysg rhai o'r golygfeydd gorau sydd gan Gymru i'w cynnig. walesrallygb.com

Digwyddiadau sy'n denu cynulleidfya fyð-eang.

Gwlad Cestyll.

Castell Biwmares, Ynys Môn

croeso.cymru

Roedd gan Gastell Coch ei winllan ei hun tan 1920.



Deg o gestyll Cymru.

Ceir mwy o gestyll fesul milltir sgwâr yng Nghymru na'r unlle arall yn y byd. Maen nhw i'w cael ymhob lliw a llun a chyflwr. Bu rhywun yn byw yn rhai ohonynt yn barhaus ers dros fil o flynyddoedd, tra bo eraill yn ddim ond adfeilion anghysbell. Dyma ddetholiad o gestyll, pob un â'i gyfoeth ei hun o hanes a chwedlau.

01— Caernarfon Dechreuodd Edward I waith ar Gastell Caernarfon yn y 1280au. Y bwriad oedd syfrdanu, gyda'r tyrau aml-onglog a'r stribedi o gerrig o liwiau gwahanol. Mae'n rhan o Safle Treftadaeth y Byd UNESCO sy'n cynnwys cestyll Biwmares, Conwy a Harlech a waliau caerog trefi Conwy a Chaernarfon.	06— Cricieth Dyma leoliad perffaith ar gyfer castell: fry ar bentir rhwng dau draeth. Llywelyn Fawr gododd y castell cyntaf, ac ychwanegwyd ato gan Edward I, cyn i Owain Glyndŵr ei losgi'n ulw yn ystod gwrthryfel 1404.
02— Biwmares Dyma'r castell mwyaf technegol berffaith ym Mhrydain, er na chafodd ei gwblhau'n llwyr gan Edward I. Hyd yn oed heddiw, mae'r cynllun 'waliau o fewn waliau' yn drawiadol.	07— Rhaglan Mae Rhaglan yn llawn cymaint o balas ag o gadarnle, sy'n arddangos holl foethusrwydd cyfnod y Tuduriaid. Heddiw, dyma le gwych i gynnal digwyddiadau a gweithgareddau.
03— Conwy Dyma gampwaith arall gan adeiladwr Edward I, James o St George. Mae'r castell yn dal i dra-arglwyddiaethu dros y dref, ble gwelir rhai o'r waliau amgylchynol gorau yn Ewrop, sy'n cynnwys 21 tŵr a thri phorth.	08— Castell Coch Codwyd y tyrau tylwyth teg hyn ar sylfeini hynafol yn y 19eg ganrif gan Ardalydd Bute, fel lle gwledig i encilio iddo oddi wrth ei brif gartref, Castell Caerdydd. Mae'r tu mewn, yn arddull y Diwygiad Gothig, yn syfrdanol.
04— Harlech Os oes golwg braidd yn ynysig ar y castell enfawr hwn heddiw, mae 'na reswm da dros hynny: ciliodd y môr dros y 700 mlynedd ddiwethaf (gan wneud lle, yn ddigon ffodus, i un o'n cyrsiau golff gorau, y Royal St David's).	09— Cydweli Tu allan i'r porthdy ceir cofeb i'r Dywysoges Gwenllïan, a laddwyd wrth iddi arwain byddin yn erbyn y Normaniaid ym 1136. Yn fwy diweddar, Cydweli oedd lleoliad golygfa agoriadol <i>Monty Python and the Holy Grail</i>.
05— Caerffili Mae'r castell mwyaf yng Nghymru yn ticio'r bocsys i gyd: tyrau mawr (sy'n pwyso drosodd ymhellach na thŵr Pisa), Neuadd Fawr a phont godi, peiriannau gwarchae sy'n dal i weithio, a'r cyfan wedi'u hamgylchynu ag amddiffynfeydd dŵr crand.	10— Castell y Waun Dyma'r olaf o gestyll Cymru o gyfnod Edward I sy'n dal i fod yn gartref heddiw. Cwblhawyd y castell ym 1310 a lleolir y cyfan mewn gerddi gwerth eu gweld.
Mae Cadw a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol wedi ymroi i ddarparu mynediad llawn i bob gallu, ble bynnag y bo'n ymarferol. cadw.llyw.cymru ymddiriedolaethgenedlaethol.org.uk	

Llwybr Arfordir Cymru, sy'n amgylchynu ein harfordir cyfan 870-milltir (1,400km) o hyd, yw'r llwybr arfordirol parhaus hiraf yn y byd. Mae gan bob cildraeth a chlogwyn ei chwedl ei hun am fôr-ladron a smyglwyr, llongddrylliadau a seintiau, pentrefi coll a chestyll a gladdwyd dan dywod – a rhyw 230 o draethau. Oddi ar yr arfordir, mae 50 o ynysoedd yn frith o adar, tra bo'r dyfroedd clir yn gartref i forloi, llamidyddion a haid fwyaf y Deyrnas Unedig o ddolffiniaid trwynbwl.


llwybrarfordircymru.gov.uk

Yr Arfordir.

”

RHAI O
WARCHOD-
FEYDD BYWYD
GWYLLT
GORAU’R BYD.

”



Lawr ar lan y môr.
Mae ein traethau ymysg y glanaf a’r mwyaf diogel yn y byd, tra bo’n hynysoedd fel mwclis naturiol o gwmpas y glannau. Dyma flas yn unig o ryfeddodau arfordir Cymru.

Porth Oer, Pen Llŷn	Ynys Echni, ger Caerdydd
Mae’r cildraeth hyfryd hwn ar arfordir gogleddol Llŷn yn enwog am chwiban y tywod, sy’n gwichian wrth i chi gerdded drosto (un o ddau draeth o’r fath yn Ewrop). ymweldageryri.info	Er mai prin bum milltir (8km) sydd o ganol Caerdydd i Ynys Echni, bu’n guddfan i fôr-ladron, smyglwyr, chwarelwyr a milwyr yn eu tro. Bellach mae’n warchodfa natur heddychlon (â thafarn fechan, y Gull & Leek), a gallwch groesi am y dydd neu aros dros nos. flatholmisland.com
Barafundle, Sir Benfro	Ynys Bŷr, ger Dinbych-y-pysgod
Rhaid cerdded am ryw hanner milltir i gyrraedd y bae bach perffaith hwn, un o’r harddaf yng Nghymru. Mae rhywbeth trofannol, bron, am y llain o dywod perffaith. visitpembrokehire.com	Adar y môr a mynachod Sistersaidd yw prif drigolion yr ynys fechan hon. Ceir traeth eang ym Mae’r Priordy, ac mae’r mynachod yn gwneud ac yn gwerthu persawr a danteithion sawrus eraill. caldey-island.co.uk
Rhosili, Gŵyr	Ynys Dewi, ger Tyddewi
Honnir mai Rhosili yw’r traeth gorau yn y DU, ac fe’i dyfernir ymhlith deg uchaf y byd yn aml. Ceir olion llongddrylliad ar y traeth, a gellir cerdded i Ben Pyrod oddi yma. dewchifaeabertawe.com	Mae’r creigiau 400 troedfedd (120m) yn gartref perffaith i adar y môr yn y gwanwyn a dechrau’r haf, ond dewch yn yr hydref i weld morloi ifanc. Gallwch groesi dŵr garw’r swnt, Y Geist, a dilyn llwybr cylchol 3.5 milltir (5.6km) o gwmpas yr ynys. rspb.org.uk
Mwnt, Ceredigion	Ynys Sgomer, ger Aberllydan
Mae traeth y Mwnt yn brydferth iawn, ac os dringwch y pentir, heibio i’r hen eglwys fach wyngalchog, mae’n bosib y gwelwch chi forloi, dolffiniaid a llamidyddion yn y bae. darganfodceredigion.co.uk	Ar y cyd, Sgomer, a’i chymydog, Sgogwm, yw’r cynefin bywyd gwyllt pwysicaf yng Nghymru. Ceir yma boblogaeth o bwysigrwydd byd-eang o balod ac adar drycin Manaw. Gallwch aros dros nos ar y ddwy ynys, neu gallwch ymweld â Sgomer am y dydd. Hudolus. welshwildlife.org
Ynys Llanddwyn, Môn	Ynys Enlli, Pen Llŷn
Cerddwch drwy warchodfa natur, a dyma chi yn llecyn mwyaf rhamantus Cymru, ynys lanw (er mai prin y’i gwahanir o’r tir mawr) â’i goleudy’i hun, a chysegr i Santes Dwynwen. croesomon.co.uk	Bu’r ynys hon, ‘gorffwysfa ugain mil o seintiau’, yn encil ysbrydol ers amser maith, ac mae’n hafan i fyd natur hefyd – cartref i forloi, palod, adar drycin Manaw a llawer o greaduriaid eraill. Mae math arbennig o afal yn tyfu yma hefyd, sy’n dyddio’n ôl dros fil o flynyddoedd. enlli.org
Cadeiriau olwyn ar y traeth	
Mae gan Sir Benfro 18 o draethau ‘mynediad hwylus’ ar gyfer pobl gydag anawsterau symud, gan gynnwys chwech ble gallwch logi cadeiriau olwyn arbennig ar gyfer y traeth. arfordirpenfro.org.uk	

Taith Trwy Amser.

Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru, ger Caerdydd

croeso.cymru

Deg o feistri'r gorfennol.

Mae pobl wedi gadael eu marc ar dirlun Cymru ers cyn hanes. Dyma ddetholiad bychan o safleoedd treftadaeth sy'n britho Cymru – yn aml yn y mannau harddaf.

01—
Castell Henllys, Sir Benfro
Dyma'r unig bentref Oes Efydd ym Mhrydain, a ailgodwyd ar yr union safle ble bu ein hynafiaid Celtaidd yn byw tua 2,400 o flynyddoedd yn ôl. Gallwch roi cynnig ar ddigonedd o weithgareddau ymarferol mewn lleoliad hardd yn y Parc Cenedlaethol. castellhenllys.com

02—
Mwngloddiau Aur Dolaucothi, Pumsaint
Y Rhufeiniaid oedd y cyntaf i gloddio yma ar raddfa ddiwydiannol, 2,000 o flynyddoedd yn ôl. Caeodd y pwll yn y 1930au, ond gall ymwelwyr fynd ar daith danddaearol o hyd, a rhoi cynnig ar olchi aur drwy badell. ymddiriedolaethgenedlaethol.org.uk

03—
Teyrnas Gopr, Amlwch
Ar un adeg, tref fwyaf gogleddol Cymru oedd canolbwynt y diwydiant copr, ac mae wedi gadael rhai olion trawiadol, yn arbennig felly ar Fynydd Parys, sy'n debyg i wyneb y lloer. copperkingdom.co.uk

04—
Gwaith Haearn Blaenafon
Ar un adeg, hwn oedd un o'r gweithiau haearn mwyaf yn y byd, ac mae bellach yn rhan o Safle Treftadaeth y Byd UNESCO. Mae'r safle'n cyfuno creiriau afrosgo â bythynnod wedi eu hadfer i roi cipolwg byw ar fywydau'r gweithwyr. cadw.llyw.cymru

05—
Plas Newydd, Llanfair PG (neu Llanfair-pwllgwyngyllgogerychwyrndrobwll-llantysiliogogogoch i roi'r enw llawn)
Mae'r plasty cain hwn ar lan y Fenaï'n cynnwys y casgliad mwyaf o weithiau Rex Whistler, amgueddfa filwrol, a gardd wanwyn braf. ymddiriedolaethgenedlaethol.org.uk

06—
Erddig, ger Wrecsam
Cipolwg cyfareddol ar fywyd byddigion a gweision o'r 18fed ganrif, ynghyd â gardd ffurfiol ysbennnydd a pharcdir rhamantus. ymddiriedolaethgenedlaethol.org.uk

07—
Llanerchaeron, Aberaeron
Mae gan yr ystâd fonheddig braf hon o'r 18fed ganrif ardd furiog anhygoel ynghyd ag angerdd dros fyw'n hunangynhwysol (a siop fferm ar gyfer unrhyw nwyddau dros ben). ymddiriedolaethgenedlaethol.org.uk

08—
Eglwys Gadeiriol Tyddewi
Adeiladwyd pencadlys ein nawddsant ar safle mynachlog a sefydlodd yn y 6ed ganrif. Dyma fan hyfryd i ymweld ag ef unrhyw bryd, ac yn enwedig yn ystod yr ŵyl gerddoriaeth flynyddol ar ddiwedd Mai / dechrau Mehefin. stdavidscathedral.org.uk

09—
Abaty Tyndyrn
Y campwaith Sistersaidd hwn yw'r enghraifft orau o abaty canoloesol yng Nghymru heddiw. Ysbrydolwyd beirdd ac artistiaid gan ei harddwch aruthrol, ynghyd ag ysblander Dyffryn Gwy o boptu, ers canrifoedd. cadw.llyw.cymru

10—
Ffynnon Gwenffrewi, Treffynnon
Daeth pererinion i'r dyfroedd iachaol hyn ers y 12fed ganrif, a gall pererinion modern ddal i ymdrochi ym mhwill y ffynnon. Mae'r gysegrfa bresennol yn dyddio'n ôl i'r 16eg ganrif, a cheir yma amgueddfa sy'n adrodd hanes (dychrynlyd braidd) sut y daeth i fod. saintwinefrideswell.com

YR AMGUEDDFA
AWYR AGORED
WYCH HON
YW ATYNIAD
TREFTADAETH
MWYAF
POBLOGAIDD
CYMRU.

II

- 01–03 Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru
- 04 Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd
- 05 Artes Mundi,
Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd
- 06 Amgueddfa Wlân Cymru



croeso.cymru



Trysorau cenedlaethol.
Mae gan yr Amgueddfa Genedlaethol saith safle penigamp o gwmpas Cymru, sy’n trafod pob agwedd ar hanes Cymru mewn manylder, yn ogystal â chasgliadau o safon ryngwladol o Gymru a phob cwr o’r byd. Yn well na dim, gall pawb fynd i mewn yn rhad ac am ddim.

Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd

Dewch ar daith ar y cyd ag un o gasgliadau celf gorau Ewrop, ochr yn ochr â deinosoriaid, mamothiaid a miloedd o rywogaethau o anifeiliaid a phlanhigion: taith sy’n mynd â chi o’r Glec Fawr hyd heddiw. Ewch cyn diwedd Chwefror a chewch gyfle i weld gwobr celf fwyaf y Deyrnas Unedig, Artes Mundi.
[amgueddfa.cymru/caerdydd](#)

Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru, ger Caerdydd

Yr amgueddfa awyr agored wych hon yw atyniad treftadaeth mwyaf poblogaidd Cymru, gyda 40 o adeiladau gwreiddiol wedi eu symud i 100 erw (40ha) o goetir o fewn tiroedd plasty o’r 16eg ganrif.
[amgueddfa.cymru/sainffagan](#)

Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe

Mae’r amgueddfa fodern hon yn dathlu’r technolegau mwynloddio, trin metel a chlodiant a newidiodd y byd, gan roi sylw i syniadau newydd am y modd y mae gwyddoniaeth o Gymru’n helpu i lunio’r dyfodol.
[amgueddfa.cymru/abertawe](#)

Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru, Blaenafon

Dyma deyrnged fyw i’r diwydiant glo a’r gymdeithas a grëwyd ganddo. Mae yna lawer i’w archwilio yn hen adeiladau’r lofa, a gallwch fynd 295 troedfedd (90m) dan ddaear gyda chyn-löwr go iawn.
[amgueddfa.cymru/bigpit](#)

Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis

Adroddir hanes cyfareddol llechi a’r modd y newidiwyd y tir a’r bobl ganddynt yng ngweithdai Fictoraidd hen chwarel enfawr Dinorwig. Cyn-chwarelwyr yw llawer o’r staff, sy’n dod â’r hanes yn fyw.
[amgueddfa.cymru/lechi](#)

Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru, Caerllion

Yn 75 OC, sefydlodd y Rhufeiniaid gaer a fyddai’n gwarchod yr ardal hon am dros 200 o flynyddoedd. Mae’r adfeilion yn cynnwys amffitheatr fwyaf cyflawn Prydain a’r unig Farics Lleng Rufeinig ar ddangos unrhyw le yn Ewrop.
[amgueddfa.cymru/rufeinig](#)

Amgueddfa Wlân Cymru, Drefach Felindre

Mae yna dair gwaith cymaint o ddefaid ag o bobl yng Nghymru. Adroddir hanes cyfareddol y diwydiant gwlân, o’r ddafad i’r defnydd, yn yr amgueddfa gyfeillgar hon, a leolir yn hen ffatri wlân y Cambrian Mills.
[amgueddfa.cymru/gwlan](#)

Mae pob un o’n Hamgueddfeydd Cenedlaethol wedi ymroi i ddarparu mynediad llawn i bob gallu, ble bo hynny’n ymarferol.

Gwlad Fawr.

Cwm Elan, Canolbarth Cymru

Eangderau maith yw un o’n cryfderau ni yng Nghymru. Mae un rhan o bump o’r holl wlad yn dir Parc Cenedlaethol. Ceir pum Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, ac erwau maith o goedwigoedd a fforestydd. Mae yna ddwy brif gadwyn o fynyddoedd – Eryri a Bannau Brycheiniog – a nifer o ucheldiroedd llai (ond nid llai hardd), a’u llethrau’n disgyn i gymoedd afonydd eang. Mewn geiriau eraill, mae yna dir epic rownd pob cornel. Dyma ddetholiad o fannau sy’n galw arnoch.

Chwecch taith gerdded epic.

01—
Pen y Fan, ger Aberhonddu
Dyma gopa uchaf Bannau Brycheiniog, sydd eleni’n dathlu ei 60ain pen-blwydd fel Parc Cenedlaethol. Mantais fawr Pen y Fan yw ei bod mor hawdd cyrraedd yno – dim ond 40 munud o Gaerdydd – ac mae’n ddigon hawdd i blant allu ei daclo. Ond mae’n dal i deimlo fel mynydd go iawn: mae yna reswm pam fod yr SAS yn hyfforddi yma.
bannaubrycheiniog.org

02—
Tryfan, ger Capel Curig
Mae Tryfan yn debyg i stegosawrws anferth, â’i gefn pigog yn codi’n ddramatig o ochr yr A5 yn Nyffryn Ogwen. Rhaid sgrialu’n serth i gyrraedd y copa, ble mae dau biler carreg anferth, o’r enw Adda ac Efa, yn nodi’r fan.
eryri-npa.gov.uk

03—
Cader Idris, ger Dolgellau
Pedol eithriadol, o gwmpas rhewlyn Llyn Cau, yw ‘cader’ y cawr chwedlonol Idris. Dyma le cystal â dim i gael picnic a gwlychu eich traed ar ddiwrnod braf.
eryri-npa.gov.uk

04—
Llwybr Clawdd Offa
Mae’r llwybr yn ymdroelli ar hyd holl ffin Cymru a Lloegr, gan ddilyn gwrthglawdd y Brenin Offa o’r 8fed ganrif ar hyd y 70 milltir (113km) yn y canol.
cy.nationaltrail.co.uk/offas-dyke-path

05—
Taith Cambria
Taith gerdded fach 291 milltir (468km) o Gonwy i Gaerdydd, sy’n mynd â chi i fannau uchaf a gwylltaf Cymru. Cewch gyfle i ddringo pob un o’r copaon uchaf ar hyd y ffordd – 50 i gyd.
cambrianway.org.uk

06—
Cwm Elan, ger Rhaeadr
Adeiladwyd cronfeydd Cwm Elan gan y Fictoriaid i gyflenwi dŵr i Ganolbarth Lloegr, ac fe’u lleolir ymysg 72 milltir sgwâr (116km sgwâr) o’r tir mwyaf digyffwrdd yng Nghymru. Mae taith naw milltir (14km) Llwybr Cwm Elan yn cynnig mynediad da i gerddwyr, beicwyr, marchogion a chadeiriau olwyn.
elanvalley.org.uk


“

ALLWCH
CHI DDIM
Â GWELLA
AR NATUR –
OND MAE’N
HWYL TRIO
WEITHIAU.

”



Mae gan Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru amrywiaeth o 8,000 o blanhigion.



Glasdiroedd.

Beth yw’r math gorau o wlad i chi? Gwyllt a garw, ynteu wedi’i ffrwyno’n dyner gan law crefftus y garddwr? Dyma ambell lecyn gwyllt a gardd gofiadwy i’w mwynhau.

Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, Llanarthne

Arferai ystâd Middleton fod yn gartref i rai o’r parcdiroedd a gerddi dŵr godidocaf ym Mhrydain, a hynny yn un o’n dyffrynnoedd harddaf. Heddiw, dyma gyfuniad medrus o’r hanesyddol a’r modern iawn, gan gynnwys tŷ gwydr un-rhychwant mwyaf y byd.
garddfotaneg.cymru

Gardd Goedwig Colby, ger Amroth

Mewn dyffryn cudd, mae’r ardd goedwig anffurfiol hon yn enghraifft arbennig o arddwr yn gweithio i wella ar ddarpariaeth byd natur. Mae’n anodd credu mai pwll glo oedd y lloches hon i fywyd gwyllt ganrif yn ôl.
ymddiriedolaethgenedlaethol.org.uk

Gardd Bodnant, ger Bae Colwyn

Mae Neuadd Bodnant yn cynnwys gerddi teras a lawntiau anffurfiol, tra bod y Pant isaf wedi ei lunio gan ddyffryn Afon Hiraethlyn ac yn cynnwys gardd wyllt wych. Mae yma lwybrau i’r teulu a digwyddiadau rheolaidd i ddifyrru’r plant, ac fe drawsnewidiwyd bythynnod yr ystâd yn llety gwyliau moethus.
bodnantgarden.co.uk

Abergwesyn, ger Tregaron

Efallai mai dyma’r ffordd fwyaf unig yng Nghymru: rhuban o darmac sy’n rhedeg o Lanwrtyd i Dregaron trwy dirwedd wyllt o weunydd, sgarpiâu, coedwigoedd pîn a nentydd byrlymus.
ymddiriedolaethgenedlaethol.org.uk

Gerddi Cudd Plas Cadnant, Porthaethwy

Cafodd yr ardd ‘goll’ hon o’r 19eg ganrif ei hachub yn y 1990au, ac mae ei thrysorau hardd yn cynnwys wal furiog, gardd ddyffryn gudd â thair rhaeadr ac afon, a gardd goetir sy’n cynnwys adfeilion ffantasi.
plascadnant.co.uk

Arennig, ger y Bala

Er bod y gadwyn hon yn llawer llai adnabyddus na nifer o gopaon Eryri, mae’n denu’r rhai sy’n gwybod eu pethau. Ym 1911 gadawodd yr artistiaid Cymreig Augustus John a James Dickson Innes firi Llundain i fyw a pheintio yma am rai blynyddoedd, gan greu casgliad hynod o waith.
visitbala.org.uk/cy

Ar ei orau, mae bwyd Cymru'n syml: y cynhwysion gorau, wedi'u coginio'n fedrus gan bobl angerddol. Wrth gwrs, mae gennym enw da, llwyr haeddiannol, am gig oen, ond beth am gig eidion y Gwartheg Duon, cawsiau rhagorol, a bwyd môr gwych o'r arfordir gwyllt? Daw ryseitiau teuluol ar gyfer cawl i lawr drwy'r cenedlaethau, ond rydym hefyd yn amsugno dylanwadau newydd, yn bragu cwrw gwych, ac yn gwneud gwin sy'n ennill gwobrau (wir i chi).

Bwyd a Diod.

II

Y CYNHWYSION
LLEOL GORAU,
WEDI’U
COGINIO’N
SYML AC YN
ANGERDDOL.

II

- 01–02
- Bwyd gwyllt ar lan y môr
- 03
- Caws Cenarth Euraidd wedi’i bobi
- 04
- Pysgodyn y dydd
- 05
- Wright’s Food Emporium
- 06
- Bragdy Pipes



croeso.cymru



Blas ar Gymru.
Dyma ddetholiad o’r profiadau gastronomaid
cyfoethog ac amrywiol sy’n manteisio i’r eithaf
ar ein hadnoddau naturiol helaeth.

Y saith seren
Testun balchder yw gweld bod y <i>Michelin Guide 2017</i> wedi anrhydeddu cynifer â saith o fwytai Cymru â sêr, y nifer fwyaf erioed. Nid dim ond ennill gwobrau sy’n bwysig, wrth gwrs, ond mae’r saith seren yn adrodd stori am fywiogrwydd eithriadol ein byd coginio. Ac wrth gwrs, mae pob un, yn ei ffordd ei hun, yn hollol rhagorol. viamichelin.co.uk
Wright’s Food Emporium, Llanarthne
Dyma deml i bopeth bwytdwy, yfadvy a blasus. Caffi a deli o’r radd flaenaf yw Wright’s, gyda detholiad da o winoedd naturiol. Mae’r nosweithiau cogyddion gwadd rheolaidd yn chwedlonol. wrightsfood.co.uk
Ystâd Rhug, Corwen
Gwelir cig oen ac eidion organig Arglwydd Newborough ar blatiau bwytai gorau’r byd. Yn wreiddiol, ffordd o ddal llygad pobl oedd yn pasio i ddod i mewn i’r siop fferm ysblennydd oedd y fuches o ych gwyllt – ond maen nhw’n gwneud byrgers rhagorol hefyd! rhug.co.uk
Cawslyd
Mae gormodedd o ddewis i gaws-garwyr, ond lle da i ddechrau yw Perl Wen hufennog a Pherl Las wythiennog Caws Cenarth, cyn symud ymlaen at Celtic Promise cryf Caws Teifi, y caws sydd wedi ennill y nifer fwyaf o wobrau ym Mhrydain. cawscenarth.co.uk teificheese.co.uk
Iechyd da!
Bydd y rhan fwyaf o dafarndai bellach yn cynnig o leiaf un cwrw, seidr neu berai a fragwyd ar garreg y drws (mewn sied, o bosib). Gwaun Valley, Kite, Gower, Pipes, Crafty Devil, Tiny Rebel, Bluestone, Mŵs Piws, Hallets, Gwynt y Ddraig, Morfa Nefyn... holwch eich barman lleol am fanylion pellach.

Dal y distyll
Diddymwyd distyllfeydd Cymru gan angerdd crefyddol Anghydfurfwyr y 19eg ganrif, a dim ond ers yr 21ain ganrif y maen nhw wedi dechrau ailymddangos. Distyllfa Penderyn sy’n arwain y gad, gyda’i wisgi rhagorol o waelodion Bannau Brycheiniog. welsh-whisky.co.uk
Gwymon blasus
Efallai fod bara lawr – sef gwymon, wedi’i goginio’n bast glasddu llysnafeddog – yn saig brecwast anarferol, ond mae’n blasu’n anhygoel. Mae’n cael lle amlwg ar fwydlen Caffi Môr, cwt bach dymunol ar draeth Freshwater West. Rhôl cimwch, unrhyw un? beachfood.co.uk
Hel a didoli
Mae Cymru’n lle rhagorol i hel bwyd gwyllt. Mae’r holl gynefinoedd addas yma (arfordir, coedwigoedd, cefn gwlad digyffwrdd) a digon o bobl frwd i’ch harwain. originaloutdoors.co.uk wildpickings.co.uk
Wythnos Bysgod Sir Benfro
Mae gan yr ŵyl fawr hon, a gynhelir ar ddiwedd Mehefin / dechrau Gorffennaf, dros 250 o ddigwyddiadau sy’n dathlu bwyd môr ardderchog ac arfordir ysblennydd y sir. pembrokeshirefishweek.co.uk
Perfformiad pefriog
Digon gwir, gall y tywydd fod yn her. Ond gall gwinllannau Cymru gynhyrchu gwinoedd arbennig mewn blwyddyn dda. Mae Ystâd Ancre Hill yn cynhyrchu Pinot Noir rhagorol yn Sir Fynwy – ac enillodd cynnyrch eu cynhaeaf yn 2008 wob y gwin byrlymus gorau yn y byd yng nghystadleuaeth Bollicine del Mondo yn yr Eidal. ancrehillestates.co.uk

Mae'r fferm yn ymuno â'n dathliadau Blwyddyn Chwedlau yn un o blith llawer o bethau i'w cofnodi yn eich dyddiadur dros y 12 mis nesaf.

Dyddiadur Digwyddiadau 2017. Mae ymuno â'n dathliadau Blwyddyn Chwedlau yn un o blith llawer o bethau i'w cofnodi yn eich dyddiadur dros y 12 mis nesaf.

Edrychwch ar y wefan am fwy: croeso.cymru

Mae'r fferm yn ymuno â'n dathliadau Blwyddyn Chwedlau yn un o blith llawer o bethau i'w cofnodi yn eich dyddiadur dros y 12 mis nesaf.

Mae'r fferm yn ymuno â'n dathliadau Blwyddyn Chwedlau yn un o blith llawer o bethau i'w cofnodi yn eich dyddiadur dros y 12 mis nesaf.

Mae'r fferm yn ymuno â'n dathliadau Blwyddyn Chwedlau yn un o blith llawer o bethau i'w cofnodi yn eich dyddiadur dros y 12 mis nesaf.

Mae'r fferm yn ymuno â'n dathliadau Blwyddyn Chwedlau yn un o blith llawer o bethau i'w cofnodi yn eich dyddiadur dros y 12 mis nesaf.

IONAWR
1 Ionawr
Nofio Dydd Calan
Ar gyfer Dydd Calan eleni, rydym ni’n addunedu i dynnu ein dillad a phlymio i’r môr er lles elusennau. Mae gwisg ffansi’n boblogaidd yn nigwyddiad Saundersfoot, tra bo nofwyr dewr Ynys y Barri’n tueddu i wisgo tipyn llai. Brrr! saundersfootnyds.co.uk facebook.com/BarryIslandNewYearDaySwim

14 Ionawr
Pencampwriaeth Rasio Cerbydau Rhyfel MTB y Byd a Thaith Gerdded Cwrw Cyflawn Satwrnalia, Llanwrtyd
Satwrnalia oedd parti mawr y gaeaf i’r Rhufeiniaid. Mae’r fersiwn modern yn cynnwys rasio cerbydau rhyfel a bwerir gan ddau feiciwr mynydd – a bwerir yn eu tro gan gwrw! green-events.co.uk


25 Ionawr
Dydd Santes Dwynwen
Mae Dydd Santes Dwynwen yn ddiwrnod pwysig i gariadon Cymru, i gofio nawddsant y cariadon, Dwynwen. Tywysoges o’r 5ed ganrif oedd hi, a gwmpodd mewn cariad â’r dyn anghywir. Ymrôdd i fyw bywyd sanctaidd fel lleian ar Ynys Llanddwyn, gan weddïo y byddai cariadon eraill yn cael mwy o lwc na hi. I’w hanrhydeddu, caiff cardiau eu cyfnewid, a bydd llygaid serchus yn cwrdd dros brydau golau cannwyll.

Ionawr–26 Chwefror
Artes Mundi, Caerdydd
Mae prif wobr ryngwladol celf gyfoes y Deyrnas Unedig yn dwyn ynghyd artistiaid cyfoes gorau’r byd bob yn ail flwyddyn mewn arddangosfa fawr. Detholwyd y rhestr fer o chwe artist o blith 700 o enwebiadau o 90 gwlad, a chaiff yr enillydd (a gyhoeddir ar 26 Ionawr 2017) wobr ariannol fwyaf y byd celf yn y DU – £40,000. Rhyngddynt, mae’r artistiaid yn trafod materion byd-eang pwysig fel mudo, technoleg, ecoleg, cyfalafiaeth a gwleidyddiaeth, mewn arddangosiadau cyfareddol ac ysgytwol ar draws dau leoliad, Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd a Chapter.

Os maddeuwch ychydig o ffafriaeth leol, rydym ni’n hoff iawn o waith Bedwyr Williams, Tyrrau Mawr, tafluniad digidol enfawr sy’n dychmygu dinas newydd wallgo o gwmpas Cader Idris yn Eryri. artesmundi.org
--

CHWEFROR

11 Chwefror
Pencampwriaeth 6 Gwlad RBS: Cymru v Lloegr, Caerdydd
Waeth i ni fod yn onest: hon yw’r Gêm Fawr i lawer o gefnogwyr rygbi Cymru o hyd. Mae Eddie Jones wedi ychwanegu elfen ddidostur i Loegr, y mae’n rhaid ei pharchu er ein gwaethaf. Dylai fod yn gêm a hanner. principalitystadium.wales



Mae lle i 74,500 o bobl eistedd yn Stadiwm Principality.

MAWRTH
1 Mawrth
Dydd Gŵyl Dewi
Dathlwn ddiwrnod ein Nawddsant â gorymdaith fawr trwy Gaerdydd, a chynhelir digwyddiadau tebyg yn Aberystwyth, Wrecsam a Llandudno. Cofiwch wisgo cenhinen yn eich cap ac yn eich calon! gwyl dewi.org

10 Mawrth
Pencampwriaeth 6 Gwlad RBS: Cymru v Iwerddon, Caerdydd
Nid pawb sy’n gwirioni ar gemau nos Wener. Ond Caerdydd yw’r ddinas orau am noson dda o hyd, â 80 munud o ymryson rygbi cyffrous rhwng y Celtiaid yn ei chanol. principalitystadium.wales

EBRILL

7–9 Ebrill
Sioe Flodau Caerdydd yr RHS
Mae’r Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol yn croesawu’r gwanwyn ac yn cychwyn ar y tymor garddio drwy gynnal sioe awyr agored fawr gynta’r flwyddyn yng Nghaerdydd. rhs.org.uk

7–9 Ebrill
Penwythnos Talacharn
Fel y dref ei hun, dyma ŵyl wahanol, wych. Dychmygwch eich bod yn y dafarn, ac mewn fflach mae’r nofelwyr, cerddorion, meddylwyr a’r dadleuwyr mwyaf cŵl yn ymddangos ar unwaith. thelaugharnweekend.com

8 Ebrill–3 Medi
Gillian Ayres, Caerdydd
Arddangosfa fawr yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, yn dathlu gwaith trawiadol a lliwgar un o artistiaid haniaethol mwyaf clodwiw Prydain. Dyma’r arddangosfa fwyaf erioed o waith Ayres yn y DU. amgueddfa.cymru/caerdydd

22–23 Ebrill
Wonderwool, Llanelwedd
Mae’r sioe wlân a ffibrau naturiol flynyddol hon yn gyforiog o stondinau, arddangosfeydd, dangosiadau a sesiynau blasu dyddiol. wonderwoolwales.co.uk

28–30 Ebrill
Gŵyl Gomedï Machynlleth
Mae gan yr ŵyl deimlad cyfeillgar, cartrefol, ond mae’n dal i ddenu sêr mwyaf byd comedi Prydain. Ymysg perfformwyr 2016 roedd enwogion fel Stewart Lee, Rob Newman a Josh Widdicombe – ond mae cryn dipyn o dalent newydd yma hefyd. machcomedyfest.co.uk

28 Ebrill–1 Mai
Strafagansa Fictoraidd Llandudno
Ffair stryd Fictoraidd gyda reidiau, stondinau traddodiadol, injans stêm, difyrwyr, bandiau taro a gorymdaith ddyddiol ar hyd y stryd gyda dathlwyr mewn gwisgoedd o’r cyfnod. victorian-extravaganza.com



29 Ebrill–1 Mai
Gŵyl Gerdded Llangollen
Mae’n cynnig teithiau cerdded byr, canolig a hir gyda thywyswyr proffesiynol a fydd yn rhannu hanes, treftadaeth a chwedlau gwerin lleol mewn tirweddau aruthrol. llangollenwalkingfestival.co.uk

29 Ebrill–25 Mehefin
Frank Brangwyn, Abertawe
Roedd Syr Frank yn beintiwr, ysgythrwr, darlunydd a dylunydd blaengar. Dangosir casgliad sylweddol o’i waith yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau. amgueddfa.cymru/abertawe

Ebrill (dyddiad i’w gadarnhau)
Gŵyl Lenyddiaeth Plant Caerdydd
Ar gorn llwyddiant aruthrol Dinas yr Annisgwyl Roald Dahl yn 2016, rhoddir sylw i lenyddiaeth plant yng Nghaerdydd eto, gyda dau benwythnos o ddigwyddiadau. cardiff-events.com

Ebrill (dyddiad i’w gadarnhau)
Gŵyl Awyr Dywyll, y Gelli Gandryll
Dim ond 11 o Warchodfeydd Awyr Dywyll Rhyngwladol sydd yn y byd, ac mae dau ohonynt – Parc Cenedlaethol Eryri a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog – yng Nghymru. Rheolir llygredd golau’n ofalus i ddatgelu’r awyr ar ei gorau. darkskiesfestival.org

MAI
1 Mai
Calan Mai
Dathliad ysbrydnos oedd 1 Mai i’r Celtiaid, pan fyddai’r ffin rhwng y byd dynol a’r byd ysbrydol ar ei fwyaf annelwig. Erbyn hyn, mae’n denu cerddorion gwerin i’r tafarndai lleol. croeso.cymru

1–31 Mai
Diffusion, Caerdydd
Mae gan Ŵyl Ffotograffiaeth Ryngwladol Caerdydd fis o arddangosfeydd, trafodaethau, dangosiadau, perfformiadau a digwyddiadau. diffusionfestival.org

11–13 Mai
FOCUS Cymru, Wrecsam
Y seithfed ŵyl flynyddol ar gyfer bandiau newydd, ynghyd ag ychydig o gomedï a ffilm. Y llynedd, denwyd mwy na 7,000 o bobl i weld dros 200 o fandiau mewn nifer o leoliadau. focuswales.com

13 Mai
Her y Tri Chopa
Taith heriol dros begynau eiconig Eryri, Cader Idris a Phen y Fan, gyda chlodiant rhyngddynt, a’r cyfan o fewn llai na 24 awr. Cynhelir yr un digwyddiad ar 19 Awst a 7 Hydref hefyd. threepeakschallenge.uk/welsh-three-peaks-challenge

14 Mai
Diwrnod Dylan
Diwrnod rhyngwladol i ddathlu’r bardd Dylan Thomas, ar y diwrnod y cafodd <i>Under Milk Wood</i> ei ddarllen am y tro cyntaf ar lwyfan yn Efrog Newydd ym 1953. Cynhelir digwyddiadau arbennig ledled Cymru a’r byd. llenyddiaethcymru.org

20–21 Mai
Treiathlon Llanc y Llechi Eryri, Llanberis
Nofio yn nghalon y mynyddoedd, beicio o amgylch Eryri ac yna rhedeg drwy chwarel lechi ragorol. Cyrsiau Sbrint a Llawn... neu cwblhewch y ddau i fod yn Llanc y Llechi Ffyrnig. snowdoniaslateman.com

22–30 Mai
Gŵyl Feicio Aberystwyth
Gwylwch y beicwyr proffesiynol ar y ffordd ac oddi arni, neu mwynhewch lonydd hardd llonydd Ceredigion ar Sportif y Gorllewin Gwyllt, sy’n cynnig pedwar llwybr yn amrywio o hawdd i galed iawn. abercyclefest.com

25 Mai–4 Mehefin
Gŵyl y Gelli, y Gelli Gandryll
Roedd yr Arlywydd Bill Clinton yn llygad ei le pan ddisgrifiodd y Gelli fel ‘Woodstock y meddwl’. Daw ymgynulliad anhygoel o awduron a meddylwyr gorau’r byd yma, gyda dros 900 o ddigwyddiadau dros 10 niwrnod, yn wleidyddion a beirdd, gwyddonwyr a chomedïwyr, nofelwyr a cherddorion, economegwyr ac ecolegwyr, oll yn dod ynghyd i gyfnewid syniadau mawr a fydd yn newid eich ffordd o feddwl am byth. Mae’r fformat yn ddigon syml: rydych chi’n dod i babelll fawr ac yn gwrando, ac yna’n holi cwestiynau. Mae yna fwyd a diod da hefyd, golygfeydd hyfryd – a digon o lyfrau, wrth gwrs. Eleni mae’r ŵyl yn dathlu ei phen-blwydd yn 30, felly mae’n addo bod yn well nag erioed. hayfestival.com

28 Mai
Pencampwriaeth Agored Sgimio Cerrig Cymru
Dyma’r gelfyddyd hynafol o fownsio cerrig mor bell â phosibl ar wyneb y dŵr. Y record byd swyddogol yw 88 naid. Allwch chi guro hynny? green-events.co.uk

28–29 Mai
Gŵyl Fwyd a Diod y Bont-faen
Dros 100 o arddangoswyr bwyd a diod, dangosiadau bwyd a cherddoriaeth, a’r cyfan yn harddwch y dref farchnad hon yn y Fro. cowbridgefoodanddrink.org

29 Mai–3 Mehefin
Eisteddfod yr Urdd, ger Pen-y-bont ar Ogwr
Caewch y drysau! Sefydlwyd mudiad ieuenctid Urdd Gobaith Cymru ym 1922 i helpu plant i siarad a chymdeithasu yn Gymraeg. Mae’r Eisteddfod flynyddol, un o wyliau ieuenctid teithiol mwyaf Ewrop, yn denu dros 100,000 o ymwelwyr i wylio 15,000 o blant yn canu, adrodd a pherfformio. **urdd.cymru**

Mai (dyddiad i’w gadarnhau)
Rali Stêm y Fenni
Peiriannau disglair, wedi’u sgleinio’n berffaith. Hyrddiadau di-baid y pistonau, si cyffrous y stêm. Dyngaris a chap stabl – lifrai heb ddim eironi. Clwt llawn olew ym mhoced y pen-ôl. Gwych. **abergavennysteamrally.co.uk**

Mai (dyddiad i’w gadarnhau)
Red Bull Hardline, Dinas Mawddwy
Dyma’r ras feicio mynydd am i lawr anoddaf yn y byd, wrth i’r reidwyr gorau dacio disgyniad uffernol dros bedair munud yn awyrgylch paradwysaidd Parc Cenedlaethol Eryri. **redbull.com**

MEHEFIN

1 Mehefin
Gêm Derfynol Cynghrair Pencampwyr Menywod UEFA, Caerdydd
Dyma binacl pêl-droed menywod yn Ewrop, yn cael ei gynnal yng Nghymru am y tro cyntaf, yn Stadiwm Dinas Caerdydd. Ni chyrhaeddodd tîm gorau Cymru, Menywod Metropolitan Caerdydd AFC, mo’r camau Grŵp ond, wrth fynd i brint, mae Manchester City a’r cyn-bencampwyr, Lyon, yn dal ar drywydd y tlws. **uefa.com**

3 Mehefin
Gêm Derfynol Cynghrair Pencampwyr UEFA, Caerdydd
O ran gwylwyr byd-eang, dyma’r digwyddiad chwaraeon mwyaf i’w gynnal yng Nghymru erioed, wrth i dimau gorau Ewrop gystadlu am wobr fwyaf pêl-droed clybiau. Mae’r gêm ei hun yn ganolbwynt i wyl bêl-droed a fydd yn gyfle i Gaerdydd ddangos i gefnogwyr chwaraeon gystal cyrchfan yw ein prifddinas, a dangos i’r byd mor wych yw ein stadiwm. **uefa.com**

5–25 Mehefin
Criced rhyngwladol, Caerdydd
Daeth Stadiwm SWALEC yn ffefryn gan gefnogwyr criced. Eleni, ar y cyd, rydym ni’n cynnal pencampwriaeth y Gemau Undydd Rhyngwladol (ODI) ble bydd deg tîm ODI gorau’r byd yn cystadlu am Dlws Pencampwriaeth yr ICC. Ar 5 Mehefin mae Lloegr yn wynebu Seland Newydd, Seland Newydd v Bangladesh ar 9 Mehefin, Sri Lanca v Pacistan ar 12 Mehefin, a’r gêm gyn-derfynol ar 14 Mehefin. Yna ar 25 Mehefin mae gêm NatWest IT20 rhwng Lloegr a De Affrica. **icc-cricket.com** **tickets.glamorgancricket.com**

8–11 Mehefin
Gottwood, Ynys Môn
Mae’r wyl danddaearol annibynnol, agos atoch hon o gerddoriaeth a chelfyddydau electronig yn disgrifio’i hun fel ‘parti bach hudol yn cuddio yn y coed’. **gottwood.co.uk**

9–11 Mehefin
Sioe Gychod Cymru Gyfan, Conwy
Tri diwrnod o hwyl ar y dŵr ym Marina Cei Conwy. Gallech wylïo’r dangosiadau, neu brynu’r bad modur moethus yna rydych chi’n ei haeddu. **allwalesboatshow.com**

10–11 Mehefin
Dyn yn erbyn Ceffyl, Llanwrtyd
Dechreuodd hyn fel trafodaeth mewn tafarn: pwy sy’n rhedeg gyflymaf dros dir mynydd – dyn neu geffyl? Yn y 36 mlynedd ers i’r rasio ddechrau, unwaith yn unig y curwyd y ceffyl gan ddyn. Mae’r ceffylau wrth eu bodd, ar ôl blynyddoedd o ddioddef jöcs ‘cic mul’. **green-events.co.uk**

11 Mehefin
Etape Eryri, Caernarfon
Mae’r digwyddiad sportif arbennig hwn yn cynnwys rhai o’r ffyrdd beicio gorau yn unman yn y byd. Ceir pum cwrs, yn amrywio o daith deuluol chwe milltir (10km) i’r Xtreme hollol wallgof sy’n 226 milltir (654km), sportif undydd hiraf Ewrop. **etapeeryri.com**

Wythnos Bysgod Sir Benfro trwy garedigrwydd Warren Orchard. Hedd Wyn trwy garedigrwydd Yr Ysgwrn.

11–18 Mehefin
BBC Canwr y Byd Caerdydd
Anelwyd yr wythnos ogoneddus hon o gerddoriaeth glasurol at gantorion opera a chyngerdd sy’n cychwyn ar eu gyrfa, a rhoddodd hwb i rai fel Karita Mattila, Dmitri Hvorostovsky, Syr Bryn Terfel, Anja Harteros a Jamie Barton ddod yn fyd-enwog. **bbc.co.uk**

16 Mehefin–2 Gorffennaf
Gŵyl Gregynog, ger y Drenewydd
Dechreuodd yr wyl fel parti mewn plasty gwledig ym 1933, a thyfodd yn un o’r gwyliau clasurol gorau ym Mhrydain. Mae’n nodedig o gryf ar gerddoriaeth gynnar, gan gynnal perfformiadau cyntaf gweithiau newydd gan gyfansoddwyr mawr. **gregynogfestival.org**

17 Mehefin–3 Medi
Agatha Christie: Unfinished Portrait, Caerdydd
Mae hanes Agatha Christie’n deimladwy, ac mae’n cynnwys ambell dro annisgwyl, yn ôl y disgwyl gan yr awdures enwog. Adroddir ei stori gyfareddol yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, gan ddefnyddio deunydd o’i harchif deuluol, gan gynnwys ambell rodd gan ei hŵyr, sy’n Gymro. **amgueddfa.cymru/caerdydd**

25 Mehefin–3 Gorffennaf
Wythnos Bysgod Sir Benfro
Mae arfordir gogoneddus 186 milltir (300km) Sir Benfro’n cynnig pysgod, pysgod cregyn a molysgiaid gwych. Mae’r dathliad hwn, a gynhelir am wythnos ledled y sir yn cynnwys bwyd da, a gweithgareddau pysgodlyd fel triapiau pysgota, dosbarthiadau meistr, teithiau cerdded, hel bwyd gwyllt a phicnics. **pembrokefishweek.co.uk**



25 Mehefin
Treiathlon Caerdydd
Morglawdd Bae Caerdydd yw’r amffitheatr chwaraeon perffaith ar gyfer treiathlon. Cynhelir rasys pellter Olympaidd, Sbrint a Siwper-Sbrint ar gyfer yr athletwyr, a rhoddir clychau gwartheg am ddim i’r cefnogwyr i seinio’u cefnogaeth! **cardiff-tri.com**

28 Mehefin–2 Gorffennaf
Gŵyl Hijinx Unity, Caerdydd
Arddangosiad mawr blynyddol o gelfyddyd gynhwysol ac anabledd – theatr, dawns, cerddoriaeth, sioeau teuluol, comedi. Dyma adloniant gwych mewn lleoliadau fel Canolfan y Mileniwm a’r dafarn-theatr Porter’s. **hijinx.org.uk/unity**

GORFFENNAF

1–2 Gorffennaf
Tafwyl, Caeau Llandaf, Caerdydd
Gŵyl i siaradwyr Cymraeg fwynhau gigs, comedi, ffilmiau, chwaraeon, llenyddiaeth, drama a digwyddiadau i blant. Eleni mae’n symud o’i leoliad arferol yng Nghastell Caerdydd i Gaeau Llandaf. **tafwyl.org**

3–9 Gorffennaf
Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen
Bob haf ers 1947, cynhaliodd Llangollen un o wyliau diwylliannol mwyaf ysbrydoledig y byd. Daw oddeutu 4,000 o berfformwyr i’r dref i ganu a dawnsio mewn cyfuniad unigryw o gystadlu, perfformio, a heddwch a chyfeillgarwch rhyngwladol. **eisteddfod-ryngwladol.co.uk**

6–9 Gorffennaf
Gŵyl Bluegrass Gogledd Cymru, Conwy
Pasia’r banjo, Mary-Lou. Dwi am fynd i Gonwy i fwynhau bandiau *bluegrass* o’r Unol Daleithiau ac Ewrop, cyngherddau a gweithdai a dawnsio o Fynyddoedd Appalachia. **northwalesbluegrass.co.uk**

9 Gorffennaf
Felothon Cymru, Caerdydd
Cynhelir y sportif hwn dros 140km (87 milltir), neu 110km (68 milltir) os nad ydych chi mor hoff o ddringo, ymysg golygfeydd ysblennydd, ble bydd cefnogwyr yn eich annog ymlaen ar hyd ffyrdd di-draffig. **velothon.ironman.com**

15–30 Gorffennaf
Gŵyl Archaeoleg
Cadw, ceidwaid ein treftadaeth, sy’n gofalu am y digwyddiad mawr Prydeinig hwn yng Nghymru, felly cadwch olwg am ddigwyddiadau arbennig yn eu safleoedd hanesyddol. **cadw.llyw.cymru** **archaeologyfestival.org.uk**

22 Gorffennaf
Grand Prix Speedway Prydain, Caerdydd
23 rownd o rasio beiciau modur llawn antur, olwyn wrth olwyn, mewn awyrgylch heb ei ail yn un o stadia gorau’r byd. **principalitystadium.wales**

24–27 Gorffennaf
Y Sioe Frenhinol, Llanelwedd
Sioe amaethyddol fwyaf Ewrop. Dyma gasgliad gwych o dda byw a pheiriannau, ynghyd â stondinau crefftau a neuaddau bwyd, cystadlaethau a dangosiadau. Ac os ydych chi eisiau gweld sut olwg sydd ar 15,000 o ffermwyr ifanc wedi tridiau o bartio gwyllt, anelwch am Bentref Pobl Ifanc y Ffermwyr Ifanc ble mae parti bywiocaf cefn gwlad Cymru yn ei anterth. **cafc.cymru**

26–30 Gorffennaf
Pencampwriaeth Agored Hŷn, Royal Porthcawl
Bydd mawrion y byd golff yn cystadlu am y tlws gwerthfawr hwn ar un o’n cyrsiau mwyaf godidog, gyda golygfeydd o’r môr o bob twll. **europaentour.com/seniortour** **royalporthcawl.com**

28–30 Gorffennaf
Y Caws Mawr®, Caerffili
Mae’r Caws Mawr®, a leolir yng nghysgod un o gestyll mwyaf Ewrop, yn sbloets o adloniant stryd, hanes byw, cerddoriaeth, dawns, ffair bleser, dawnsio gwerin, heboga a llyncu tân. **visitcaerphilly.com**

29–30 Gorffennaf
Gŵyl Steelhouse, Glyn Ebwy
Does yna’r un wyl roc yn mynd amdani’n fwy na’r stomp hon, sy’n dod â hen lawiau metel at ei gilydd yn yr hen dref ddur. Ydyn, mae Saxon yn dal i fynd. Byddant, mi fyddan nhw’n arwain yr wyl. Ac ydyn, maen nhw’n dal i wisgo’r trowsus yna. **steelhousefestival.com**

Gorffennaf–Awst (gwyliau ysgoll)
Traeth Bae Caerdydd, Caerdydd
Bob haf, mae Roald Dahl Plass yn cael ei drawsnewid yn draeth prysur, ynghyd â ffair bleser ac atyniadau glan-môr traddodiadol. **cardiffbaybeach.co.uk**

Gorffennaf (dyddiad i’w gadarnhau)
Gŵyl Jazz Llandeilo
Gŵyl benwythnos o *jazz*, *blues* a *soul*, a gynhelir ym mis Gorffennaf fel arfer, ynghyd â llond trol o gwrw lleol Evan Evans. **jazzatllandeilo.co.uk**

AWST

1–2 Awst
Sioe Awyr Genedlaethol Cymru, Abertawe
Y Red Arrows yw un o sawl uchafbwynt yn y sioe awyr flynyddol hon, sy’n cynnig golygfeydd perffaith i bawb yn rhad ac am ddim o draeth Bae Abertawe. **walesnationalairshow.com**

4–12 Awst
Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Bodedern, Ynys Môn
Mae gŵyl gelfyddydol fwyaf Cymru’n olrhain ei gwreiddiau’n ôl i 1176. Yn y Pafiliwn y gynhelir y prif gystadlu, ond crwydro’r Maes, gyda’r cannoedd o stondinau difyr, yw dewis llawer o Eisteddfodwyr. Eleni mae’n ganmlwyddiant Eisteddfod y Gadair Ddu 1917, pan gyhoeddwyd mai Elis Evans (neu Hedd Wyn i roi iddo’i enw barddol) oedd wedi ennill y Gadair – ond roedd wedi’i ladd ar faes y gad yn Fflandrys. Taenwyd llain du dros y Gadair, a daeth yn symbol grymus o golli’r bechgyn yn y Rhyfel Mawr. Eleni, mae Hedd Wyn yn cael ei gofio mewn digwyddiadau arbennig ledled Cymru. **eisteddfod.org.uk**



7–9 Awst

Penwythnos Cwrs Hir, Dinbych-y-pysgod

Mae’r digwyddiad tridiau hwn yn un o’r treithlons anoddaf yn y byd. Dydd Gwener yw’r Diwrnod Nofio, yna ceir Diwrnod Beicio a Diwrnod Rhedeg. Gallwch ddewis a dethol digwyddiadau (a thaclo cyrsiau byrrach), ond ar gyfer y 700 o athletwyr elit sy’n gwneud y cyfan, mae’n mynd i fod yn benwythnos hir a chaled.

longcourseweekend.com

11–13 Awst

Jazz Aberhonddu

I roi syniad i chi o safon y cerddorion sy’n ymddangos yn yr ŵyl *jazz* arbennig hon, bu Dr John, Burt Bacharach a Gregory Porter oll ar lwyfan yma dros y blynyddoedd diwethaf. Bydd dan reolaeth newydd yn 2017, felly trowch at y wefan i gael y diweddaraf.

jazzfestival2017.com

17–20 Awst

Gŵyl y Dyn Gwyrdd, Crucywel

I rai, y Dyn Gwyrdd yw’r digwyddiad na ddylid mo’i golli yng nghalendr yr haf. Gallwch fynd â’r plant, cwrdd â hen ffrindiau, gwneud rhai newydd, crwydro â chwrrw yn eich llaw, a darganfod eich hoff fand newydd. Eleni mae’r Dyn Gwyrdd yn dathlu ei ben-blwydd yn 15 oed, ac yn ôl yr arfer, ceir detholiad amrywiol iawn o berfformwyr, o werin acwstig i electronica byddarol, yn ogystal â chomedi, barddoniaeth, teithiau cerdded natur, gwyddoniaeth a llenyddiaeth. Gyda 1,500 o berfformwyr mewn 10 ardal, fe allai fod yn ŵyl i blesio pawb. O, ac mae’r bwyd a diod lleol yn wych hefyd.

greenman.net



Llun trwy garedigrwydd Gŵyl y Dyn Gwyrdd.

19 Awst

Rasio’r Trên, Tywyn

Ras 14 milltir (22km) trwy gaeau, coedwigoedd a ffrydd bach tawel, gyda’r her ychwanegol o geisio curo trên stêm Tal-y-llyn wrth iddo bwffian wrth eich ochr. Mae’r trên fel arfer yn cymryd awr a 48 munud, i roi syniad o’r cyflymder i chi.

racethetrain.com

25–28 Awst

Hwylïo Eithafol, Bae Caerdydd

Bydd prif dimau hwylïo’r byd yn brwydro yn amffitheatr berffaith Bae Caerdydd. Dyma’r lleoliad perffaith i wylïo’r catamaranau hynod hyn yn symud ar gyflymder sylweddol.

extremesailingseries.com

27 Awst

Pencampwriaeth Snorclo Cors y Byd, Llanwrtyd

Maen nhw’n rhai craff yn Llanwrtyd. Sut allwch chi ddenu pobl i wario mewn pentref bach gwledig? Hawdd. Tyrchwch ffos 197 troedfedd (60m) mewn mawnog, a gwahodd cystadleuwyr o bob cwr o’r byd i nofio ynddi.

green-events.co.uk

Awst (dyddiad i’w gadarnhau)

RawFfest, Casnewydd

Cerddoriaeth fyw, sioeau theatr, celf, creu ffilmiau... a’r cyfan oll ar gyfer pobl ifanc 14 i 25 oed.

rawffest.wales

Awst (dyddiad i’w gadarnhau)

Pride Cymru, Caerdydd

Rhaid i’r dathliad LGBT mwyaf a gorau yng nghalendr Cymru ddod o hyd i gartref newydd eleni (oherwydd y gwaith clirio wedi Gêm Derfynol Cynghrair Pencampwyr UEFA). Pan fydd y manylion yn hysbys, byddant ar eu gwefan. Mae un peth yn sicr: bydd yn siŵr o fod yn barti gwych.

pridecymru.co.uk

MEDI

1–30 Medi

Drysau Agored Cadw

Am un mis o’r flwyddyn, mae mannau hanesyddol Cymru’n gadael i chi dreiddio ymhellach, agor drysau cudd, gweld beth sy’n cuddio y tu ôl i’r llenni (a hynny am ddim weithiau).

cadw.llyw.cymru/drysauagored

2 Medi

Cymru v Awstria, Caerdydd

Wedi gorfoledd llwyr Ewro 2016, mae’r ymgyrch i gyrraedd Cwpan y Byd yn waith difrifol: 2-2 oedd y sgôr yng nghymal oddi cartref y gêm Grŵp D hon yn Fienna.

faw.cymru

3–10 Medi

Tour of Britain

Daw prif ras feicio Prydain i Gymru bob blwyddyn, ar gyfer y rhannau mwyaf heriol fel arfer. Ni chafodd llwybr y daith ei chadarnhau eto, ond bydd yn cynnwys dringfeydd serth heb os.


tourofbritain.co.uk

7–10 Medi

Gŵyl Rhif 6, Portmeirion

Portmeirion yw’r lleoliad gorau yn y byd i gynnal gŵyl, siŵr o fod. Mae’r pentref Eidalaidd hardd yn lle digon swreal ar ei orau, ond os ychwanegwch chi bobl fel Grace Jones, Bastille, Pet Shop Boys a Hot Chip... mae’n ddigwyddiad hudol, mewn lleoliad hudol.

festivalnumber6.com



Portmeirion oedd lleoliad y gyfres deledu cwlŷ o’r 1960au, *The Prisoner*.

10 Medi

Ironman Cymru, Dinbych-y-pysgod

Dyma un o ddigwyddiadau mwyaf heriol y calendr Ironman. Efallai nad yw’r môr yn rhy donnog (wel, fel arfer), ond mae’r cymalau beicio a rhedeg bryniog yn her sylweddol.

eu.ironman.com

15–17 Medi

The Good Life Experience, Penarlâg

Y gantores, y cyflwynydd a’r polymath Cerys Matthews yw un o sylfaenwyr yr ŵyl hon, sy’n rhoi materoliaeth ddifeddwl i’r neilltu, ac yn cofleidio pleserau syml y pethau sydd wir yn bwysig: teulu, ffrindiau, yr awyr agored, llyfrau, bwyd a diod go iawn, chwerthin, barddoniaeth, coelcerth, cerddoriaeth, a’r cyfan o’r enaid. Pethau nad ydyn nhw’n costio llawer, ond sy’n cyfoethogi bywyd, a’i wneud yn fwy gwerth chweil ac yn fwy o hwyl.

thegoodlifeexperience.co.uk

22–24 Medi

Gŵyl Elvis Porthcawl

Bydd miloedd o ffans Elvis yn ymweld â’r dref glan-môr ar gyfer dathliad unigryw o’r Brenin. Cynhelir y prif ddigwyddiadau yn y Pafiliwn Mawr, gyda llawer o sioeau eraill am ddim yn yr Hi Tide, ac 20 lleoliad arall sy’n rhan o’r Ŵyl Ymylol.

elvies.co.uk

Medi (dyddiad i’w gadarnhau)

Gŵyl Fwyd y Fenni

Dau ffermwr lleol sefydlodd yr ŵyl ym 1999, ond bellach mae’r digwyddiad bwyd enfawr hwn yn denu 30,000 o ymwelwyr i fwynhau’r gorau o fwyd a diod Cymru, Prydain a’r byd.

abergavennyfoodfestival.com

Medi (dyddiad i’w gadarnhau)

Gŵyl Fwyd Biwmares

Yng nghysgod muriau Castell Biwmares o’r 12fed ganrif, mae ‘Lawnt y Dref’ yn fwrlwm o bebyll a gasibos, sy’n cynnig y gorau o blith cynnyrch Cymru a bwyd stryd y byd.

beaumarisfoodfestival.co.uk

HYDREF

1 Hydref

Hanner Marathon Caerdydd

Dyma ras ffordd a digwyddiad codi arian aml-elusennol mwyaf Cymru, gyda 22,000 o redwyr. Eich nod yw’r amser cyflymaf o 61:51, a osodwyd gan Loitarakwai Lengurisi o Kenya.

cardiffhalfmarathon.co.uk

9 Hydref

Cymru v Iwerddon, Caerdydd

Gêm bêl-droed olaf Grŵp D gyda’r addewid o le yng Nghwpan y Byd FIFA 2018. Dim pwysau, felly.

faw.cymru

10–15 Hydref

Gŵyl Gwobr Iris, Caerdydd

Mae’r dathliad chwe diwrnod hwn o ffilm LGBT yn cynnwys dangosiadau o 35 ffilm fer sy’n cystadlu am Wobr Iris a’r 15 ffilm fer sy’n cystadlu am Wobr Iris Gorau Prydain.

irisprize.org

20–22 Hydref

Gŵyl Sŵn, Caerdydd

Mae’r ŵyl gerddoriaeth hon yn llenwi bron i bob lleoliad sydd ar gael yng Nghaerdydd, er mwyn arddangos talent gerddorol newydd mewn lleoliadau agos atoch. Fe’i seiliwyd yn fras ar SXSW yn Texas, a chafodd ei chynllunio er mwyn cyflwyno’r genhedlaeth nesaf o berfformwyr.

swnfest.com

26–29 Hydref

Rali Cymru GB

Mae cam Prydain Pencampwriaeth Rali’r Byd yr FIA yn cael ei chynnal dros dridiau cyffrous ynghanol rhai o olygfeydd mwyaf trawiadol Cymru.

walesrallygb.com

27 Hydref–9 Tachwedd

Gŵyl Dylan Thomas, Abertawe

Gŵyl lenyddiaeth bythefnos o hyd sy’n cychwyn ar ben-blwydd Dylan ac yn gorffen ar ddyddiad ei farwolaeth.

dylanthomas.com

TACHWEDD

Tachwedd–Ionawr

Gŵyl y Gaeaf Caerdydd

Sglefrio ar rew a reidiau, gwin poeth a chnau castan wedi rhostio, a phob math o ddatthliad braf yng nghanol dinas Caerdydd.

cardiffwinterwonderland.com

Tachwedd–Ionawr

Nadolig yng Nghaerdydd

Mae yna lawer o ddigwyddiadau’n digwydd dan faner y Nadolig yng Nghaerdydd, o’r panto i’r bale. Cyngor Siôn Corn yw edrych ar y wefan am fanylion.

cardiff-events.com

Tachwedd–Ionawr

Gwledd y Gaeaf ar y Glannau, Abertawe

Trawsnewidir Parc yr Amgueddfa’n Wledd y Gaeaf ar y Glannau, gyda chylch sglefrio a ffair bleser. Digon o win poeth i’ch cadw’n gynnes hefyd.

waterfrontwinterland.com

RHAGFYR

Trenau Stêm Siôn Corn

Mae 11 rheilffordd stêm yn fflyd Rheilffyrdd Bach Cymru, a’r rhan fwyaf yn cynnig teithiau Siôn Corn arbennig dros y Nadolig.

greatlittletrainsofwales.co.uk

Marchnadoedd Nadolig

Mae yna farchnadoedd Nadolig gwych mewn nifer o drefi Cymreig, yn cynnwys rhai mawr yn y Coed Duon, Wrecsam a Chaerffili. Nid yw’r dyddiadau wedi eu cadarnhau eto, felly cadwch olwg ar y gwefannau:

visitcaerphilly.com

wrecsam.com

Nofio tymhorol

Dyma’r adeg i ddechrau llosgi rhywfaint o’r chwe biliwn kalori a fwytawyd gennych dros y Dolig, drwy fynd am nofiad bach yn nŵr oer y môr. Cynhelir nofio Dydd Nadolig ym Mhorthcawl, a nofio Dydd San Steffan ym Mharc Gwledig Pen-bre, Dinbych-y-pysgod a Llandudno.

31 Rhagfyr

Rasys Ffordd Nos Galan, Aberpennar


Mae’r ras flynyddol hon yn coffáu Guto Nyth Brân, rhedwr o’r 18fed ganrif oedd mor gyflym fel y gallai ddiffodd cannyyll ei ystafell wely a bod o dan y cwrlid cyn iddi dywyllu.

nosgalan.co.uk

Ar ôl i ni daflu cynifer o syniadau i'ch cyfeiriad, rhaid eich bod chi'n meddwl 'Ble dwi'n dechrau?' I'ch helpu, dyma gipolwg ar rai o'r mannau rhagorol y gallwch fynd i'w harchwilio yng Nghymru. Gan fod llawer mwy ohonynt, dim ond rhywle i ddechrau yw'r 20 hyn.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn mynd i'n gwefan i gael hyd yn oed mwy o wybodaeth ac ysbrydoliaeth ar ble i Fwyta, Yfed, Aros a Chwarae yng Nghymru.
croeso.cymru

Lawlyfr Teithio.



Parc Cenedlaethol Eryri

Mae’r Porth i Barc Cenedlaethol Eryri, *Betws-y-coed*, yn prysur ddod yn ganolbwynt gweithgareddau antur y Deyrnas Unedig. Mae tipyn i’w weld a’i wneud yn yr ardal gyfagos hefyd – cofiwch fynd â’ch esgidiau cadarn, eich camera a’ch archwaeth dda am fwyd.



Mae llawer mwy o lefydd i’w harchwilio yng Nghymru, gwnewch yn siŵr eich bod yn mynd ar-lein am wybodaeth ac ysbrydoliaeth: croeso.cymru | ymweldageryri.info

Bwyd / Diod
Olif Fel arfer, fydd pobl ddim yn cysylltu Cymru â bwyd Sbaen, ond nid bar tapas cyffredin mo Olif. Tapas Cymreig yw hwn. Yr unig fwyd nad yw’n tarddu o’r ardal leol yw’r olewydd. olif-betws.co.uk
Hangin’ Pizzeria Ar wahân i’r ffaith fod eu pizzas yn werth torri unrhyw ddeiet ar eu cyfer, maen nhw’n rhoi cyfran o’u helw i elusennau sy’n helpu orangutaniaid ac epaod mawr. hanginpizzeria.co.uk
Pete’s Eats, Llanberis Dyma leoliad y frechdan sglodion orau yn yr ardal (yn ôl pob sôn), ynghyd â mygiau peint o de. Mae’r caffi hwn yn deml i ddringwyr a rhai sy’n mwynhau’r awyr agored ble byddant yn cwrdd ac yn rhannu gwybodaeth am yr ardal. petes-eats.co.uk

Aros
Tŷ Aberconwy Gwely a brecwast Fictoraidd 5 seren mewn lleoliad tawel yn agos i ganol Betws-y-coed, gyda golygfeydd gwych o Ddyffrynnoedd Llugwy a Chonwy. aberconwy-house.co.uk
Neuadd Penmachno Os Betws-y-coed yw’r ‘Ganolfan Antur’, mae pentref Penmachno, 4 milltir (6km) i ffwrdd, yn bendant y ‘Gornel Ymlacio’. Cafodd yr hen reithordy hwn Wobr Aur Croeso Cymru yn 2016, sy’n golygu mai dyma’r gorau ymhlith goreuon. penmachnohall.co.uk
Tŷ Gwledig Tan y Foel Mae Maria a Chris, perchnogion y tŷ llety hwn o’r 16eg ganrif, yn ymfalchïo mewn cyfuno llety arddull bwtic moethus â safonau gwasanaeth rhagorol. Mae brecwast campus yn gynwysedig i bawb. tyfhotel.co.uk

Chwarae
Zip World Fforest Ewch ar y wifren wib 60 troedfedd (18m) i fyny trwy ganopi’r coed neu blymio’n rhydd 100 troedfedd (30m) o’r Plummet Tower. I gael dos ychwanegol o adrenalin, beth am roi tro ar Skyride, siglen anferthol uchaf Ewrop. zipworld.co.uk
Go Below Gallwch abseilio, gwibio ar wifren, sgramblo, trawsteithio, rhwyfo a dringo o amgylch hen chwareli Eryri gyda Go Below, gan ganfod llynnoedd, ogofâu a hen beiriannau chwarel angof ar hyd y ffordd. go-below.co.uk
Cerdded yn Eryri Mae Parc Coedwig Gwydyr yn cwmpasu ardal o 28 milltir sgwâr (73km sgwâr) o gwmpas Betws-y-coed. Mae llwybrau ag arwyddbyst yn rhoi rhyddid i ymwelwyr archwilio’r llynnoedd, y coedwigoedd a’r mynyddoedd a dysgu mwy am hanes mwyngloddio plwm a sinc yr ardal. eryri-npa.gov.uk



The Marram Grass Café, Niwbwrch

Buasai’n werth ymweld â *Biwmares* pe bai ond i weld y castell aruthrol, ond mae hefyd yn lle da i’ch lleoli eich hun ar gyfer archwilio Ynys Môn, ynys fwyaf Cymru. Mae’r 125 milltir (200km) o Lwybr Arfordir Môn yn cynnig antur hanesyddol, naturiol a bwyd.



Mae llawer mwy o lefydd i’w harchwilio yng Nghymru, gwnewch yn siŵr eich bod yn mynd ar-lein am wybodaeth ac ysbrydoliaeth: croeso.cymru | croesomon.co.uk

Bwyd / Diod	Aros	Chwarae
Sosban & The Old Butchers, Porthaethwy Dyma un o saith bwyty seren Michelin Cymru, ac mae’r bwyd yn Sosban & The Old Butchers cystal, nad oes angen bwydlen. Maen nhw’n dewis gweini’r cynnyrch lleol gorau sydd ar gael y diwrnod hwnnw. sosbanandtheoldbutchers.com	The Windmill Os ydych chi’n aros mewn melin wynt, gallwch ddisgwyl bod golygfeydd gwych yn anorod. O un ochr, fe welwch Fiwmares, Afon Menai a mynyddoedd Eryri, a Môr Iwerddon, Ynys Seiriol, y Gogarth ac Ynys Manaw o’r ochr arall. whitebeachholiday.co.uk	Ynys Lawd, Caergybi Dyma olygfeydd trawiadol o glogwyni a rhostir. Gallwch fwynhau golwg glòs ar nythod ar ochr y clogwyn. Gallwch wyllo gwylogod, llursod a phalod yn magu’u cywion, tra bydd lluniau gwe-gamera’n rhoi golwg agosach fyth i chi o’r nythod. rspb.org.uk
The Marram Grass Café, Niwbwrch Hen gwt ieir oedd y bwyty cyfareddol hwn yn wreiddiol, ond erbyn hyn mae un o sêr <i>Waitrose Good Food Guide 2016</i> yn defnyddio’r cynnyrch gorau o Fôn a Chymru, gan arfer bwtsiera o’r trwyn i’r gynffon i osgoi unrhyw wastraff. themarramgrass.com	Château Rhianfa, Porthaethwy Golygfeydd o Ddyffryn y Loire yn Ffrainc a ysbrydolodd Syr John Hay Williams, Barwnig Bodelwyddan, i adeiladu’r Château ym 1849, yn rhodd i’w wraig, y Fonesig Sarah. Mewn lleoliad godidog ar lan y Fenai, mae yma 30 o ystafelloedd moethus a phrofiad bwyta danteithiol. chateaurhianfa.co.uk	RibRide Adventure Boat Tours, Porthaethwy Reidiwch ar gwch RIB ar Afon Menai neu ewch ar daith gychod Bear Grylls i ynysoedd a chlogwyni uchel arfordir gogleddol Môn. Capteiniaid y cychod sy’n eich tywys o gwmpas hanes naturiol Môn. ribride.co.uk
Sea Shanty Café, Bae Trearddur Dyma gaffi, bwyty a pharlwr hufen iâ gwych yn llechu tu ôl i’r twyni ar draeth Bae Trearddur. Mae’n werth mynd yno i edrych ar y cofroddion, llond jariau o bethau wedi eu canfod ar y traeth a chychod hardd. seashantycafe.co.uk	Wonderfully Wild Daeth glampio i Ynys Môn! Mae’r pedwar cwt yn cynnig pob cysur a steil y byddech chi’n eu cysylltu â gwyliau gwersylla moethus, tra’n caniatâu i chi, eich ffrindiau a’ch teulu agosáu at natur a darganfod cefn gwlad. wonderfullywild.co.uk	Canolfan Farchogaeth Môn, Dwyran Yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Môn mae pum milltir (8km) o lwybrau ceffylau preifat; â’r llwybrau’n mynd ar hyd glan y Fenai, prin y gallech ganfod lleoliad harddach na hyn i farchogaeth ynddo. angleseyridingcentre.co.uk




Bryn Williams ym Mhorth Eirias, Bae Colwyn

Mae'r castell mawreddog a muriau'r dref yng *Nghonwy* ymysg yr enghreifftiau gorau o bensaernïaeth filwrol ganoloesol yn Ewrop. Er gwaethaf (neu efallai oherwydd) yr amddiffynfeydd, mae Conwy yn lle deniadol a chroesawgar i fwyta, yfed ac archwilio arfordir Gogledd Cymru a Dyffryn Conwy.



Mae llawer mwy o lefydd i'w harchwilio yng Nghymru, gwnewch yn siŵr eich bod yn mynd ar-lein am wybodaeth ac ysbrydoliaeth: croeso.cymru | visitllandudno.org.uk

Bwyd / Diod	Aros	Chwarae
Bryn Williams ym Mhorth Eirias, Bae Colwyn Ar agor ar gyfer brecwast, cinio, te prynhawn a gyda'r nos, a phrin daflad carreg o'r môr a thraeth Porth Eirias. Lle mawr, agored â naws gartrefol, anffurfiol. portheirias.com	Gwesty'r Castell Adeilad rhestredig Gradd I ar safle hen abaty Sistersaidd o'r 12fed ganrif ar stryd fawr Conwy. Archebwch yn gynnar – mae'n boblogaidd. castlewales.co.uk	Tŷ Aberconwy Perl cudd ar y stryd fawr. Hwn yw'r unig dŷ marsiandwr canoloesol i oroesi chwe chanrif o hanes cythryblus yng Nghonwy. nationaltrust.org.uk/aberconwy-house
Signatures Mae Aberconwy Resort and Spa ar arfordir Conwy yn brolio bwyty Signatures Jimmy a Louise Williams. Mae'n arbenigo mewn coginio Prydeinig modern ac wedi ei restru yn y <i>Michelin Guide</i> ers pum mlynedd. darwinescapes.co.uk	Groes Inn Mae gan y gwesty a bwyty annibynnol hwn anian wledig. Mae'n ffodus fod golygfeydd ysblennydd o Foryd Conwy i'w cael yma, heb sôn am fwyd sy'n ennill gwobrau, bar da ac 14 o ystafelloedd gwely rhagorol. groesinn.com	Yr Academi Frenhinol Gymreig Gogledd Cymru oedd cartref y clwstwr cyntaf o artistiaid yn y Deyrnas Unedig, ac o ganlyniad i hynny y sefydlwyd yr Academi. Mae'r rhestr aelodau'n ymdebygu i Pwy yw Pwy celf yng Nghymru, a bydd yr arddangosfeydd yn cynnwys gwaith hanesyddol a chyfoes. rcaconwy.org
Tafarn yr Albion Un o'r enghreifftiau gorau o dafarn o'r 1920au ym Mhrydain, mae'r Albion yn ffrwyth cydweithio rhwng pedwar bragdy lleol ac mae yna gryn gyffro yma, sy'n denu detholiad amrywiol a chyfeillgar o bobl leol ac ymwelwyr. albionalehouse.weebly.com	Escape B&B, Llandudno Anghofiwrch bopeth a wyddoch am lety gwely a brecwast amheus ar lan y môr. Â'r ystafelloedd wedi'u henwi'n Urban Cool, Calm & Light a Retro Red, mae'n go amlwg fod y llety glan-môr hwn yn fwy na pharod am yr 21ain ganrif. escapebandb.co.uk	Clwb Golf Conwy Maes golff clasurol yw Conwy, a'r cyntaf yng Nghymru i gael yr anrhydedd o gynnal digwyddiad cymhwyso ar gyfer y Bencampwriaeth Agored. Yn 2020 bydd yn cynnal Cwpan Curtis, y tlws tîm pwysicaf i olffwyr amatwr benywaidd. conwygolfclub.com



Antur Stiniog

Na, dyw hi ddim yn bwrw glaw drwy’r amser, felly ‘dewch nôl i *Flaenau Ffestiniog*’ am gyfoeth o weithgareddau: cerdded, pysgota, dringo, caiacio a beicio mynydd. Mae hanes teilwng iawn i’r lle hefyd: chwareli llechi Blaenau a’r ardal ‘roddodd do ar y byd’.



Mae llawer mwy o lefydd i’w harchwilio yng Nghymru, gwnewch yn siŵr eich bod yn mynd ar-lein am wybodaeth ac ysbrydoliaeth: croeso.cymru | ymweldageryri.info

Bwyd / Diod

CellB

Mi fyddai’n dipyn o gamp dod o hyd i gaffi mwy gwahanol na CellB. Cafodd ei leoli mewn hen orsaf heddlu a llys, oddi ar y stryd fawr. Dyma hefyd gartref sinema gyntaf Blaenau Ffestiniog mewn 40 mlynedd.

cellb.org

Hebog, Beddgelert

Caffi ffasiynol yn ystod y dydd, bistro o safon gyda’r nos. Cewch groeso cynnes gan Emlyn a Nici. Mae yna ganmol mawr ar y caws pob.

hebog-beddgelert.co.uk

Y Manod

Tafarn chwarelwyr traddodiadol ar gyrion y dref. Ychwanegir at y naws gan y trawstiau pren noeth a’r lle tân llechi, a byddwch yn sicr o gael croeso cynnes.

Facebook: [Y Manod Hotel](#)

Aros

Cae’r Blaidd

Os oes angen ymlacio arnoch chi, efallai mai’r plasty gwledig hwn, ymysg coed a gerddi tawel, â golygfeydd ysgubol o Fro Ffestiniog a’r Moelwyn Mawr a Bach yw’r union beth sydd eisiau arnoch.

caerblaidd.com

Bryn Elltyd

Mae’n syndod beth welwch chi 700 troedfedd (213m) i fyny mynydd yng Nghymru. Beth am hwn – tŷ llety eco sy’n 100% carbon niwtral, a’r holl ynni’n dod o ffynonellau adnewyddadwy – yn cynnwys rhedeg sawna, system wresogi biomas, wi-fi a phwyntiau gwefru i geir trydanol. Ac yn goron ar y cyfan, mae’r lle wedi ennill gwobrau!

ecoguesthouse.co.uk

Fferm Tyddyn Du, Gellilydan

Llety teuluol delfrydol ar fferm weithredol, ble gwahoddir ymwelwyr i grwydro ymysg yr anifeiliaid yn y caeau anwesu, helpu i fwydo anifeiliaid a chasglu wyau ar gyfer brecwast.

snowdonia-farm-holidays-wales.co.uk

Mae cymaint o lefydd yng Nghymru sydd wedi fy ysbrydoli i a dylanwadu arna i. Mae’n teimlo fel pe bawn i’n bradychu cariad neu ffrind gorau pe bawn i’n dewis un dros y llall. Ond mae Blaenau Ffestiniog a’r ardal gyfagos wedi dylanwadu’n fawr iawn arna i ac ar fy agwedd iach at fywyd. Mae ganddi’r holl gynhwysion i greu ‘bara brith’ perffaith – harddwch eithriadol, ynghyd â hanes deniadol, diwylliannau amrywiol yn cyfuno â bywiogrwydd tanddaearol sy’n gwbl wahanol i unman arall yn y byd.

Fel y dywedodd yr hanesydd diweddar, John Davies, wrtha i unwaith: ‘Blaenau Ffestiniog. Gwallgof ond byth yn ddiflas.’



Ceri Cunningham

Cyd sylfaenydd Antur Stiniog a phrif leisydd Brythyn Shag

Chwarae

Antur Stiniog

Mae hen chwarel lechi Llechwedd ym Mlaenau Ffestiniog yn gefndir dramatig i’r dref. Bu cenedlaethau o bobl yn gweithio’n galed a chwarae’n galed yma; mae’r llwybrau beicio mynydd un trac yn Antur Stiniog yn ymgorfforiad o’r ffordd honno o fyw.

anturstiniog.com

Rheilffordd Ffestiniog ac Ucheldir Cymru

Efallai fod pobl yn mynd i ben draw’r byd i gael profiadau gwych ar reilffyrdd, ond mae dau o’r goreuon i’w canfod yn Eryri. Mae Rheilffordd Ffestiniog ac Ucheldir Cymru yn ymestyn dros 40 milltir (64km) o wlad odidog.

festrail.co.uk

Portmeirion

Pentref eich breuddwydion ar aber ysblennydd, â golygfeydd diguro drosodd i fynyddoedd Eryri. Yn ddigon naturiol, dyma un o’r mannau mwyaf poblogaidd i ymweld ag ef yng Nghymru, ac fe’i dewiswyd gan TripAdvisor fel y lle mwyaf lliwgar yn y Deyrnas Unedig.

portmeirion-village.com



Traeth Abersoch

Mae *Abersoch*, sy’n lleoliad poblogaidd ar gyfer hwylio a chwaraeon dŵr, yn denu cyfuniad eclecticig o ymwelwyr, a ddaw yma i geisio antur arfordirol. Mae traethau braf yn ymestyn ar hyd Bae Tremadog hardd ar Benrhyn Llŷn, sy’n Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol benodedig.



Mae llawer mwy o lefydd i’w harchwilio yng Nghymru, gwnewch yn siŵr eich bod yn mynd ar-lein am wybodaeth ac ysbrydoliaeth: croeso.cymru | ymweldageryri.info

Bwyd / Diod

The Coconut Kitchen
Ar ôl dechrau coginio bwyd Thai ar gefn telar mewn cae, ehangodd busnes Preechaya a Paul gan fynd i le parhaol yn 2007, ac yn 2015 cafodd ei enwi’n Fwyty Dwyreiniol Gorau Cymru. Prynwch botel o un o’u sawsiau eu hunain i ail-greu’r blasau gwych gartref.
thecoconutkitchen.co.uk

Plas Bodegroes, Pwllheli
Yn ystod y 30 mlynedd ers i Blas Bodegroes agor, mae bwyd, gwin a gwasanaeth y bwyty wedi ennill y clod uchaf gan nifer o dywyslyfrau blaenllaw, yn cynnwys Bwyty’r Flwyddyn y *Good Food Guide UK*.
bodegroes.co.uk

Cadwaladers
Yn wreiddiol byddai hufen iâ fanila Cadwaladers yn cael ei wneud yn ffenestr eu caffi yng Nghricieth. Bellach maen nhw’n gwneud llawer gormod o hufen iâ i’w gynhyrchu yn ffenestr y siop, ond mae’n dal i gael ei wneud yng Nghymru, gan ddilyn rysâit cwbl gyfrinachol.
cadwaladers.co.uk

Aros

Venetia
Mae Venetia’n cyfuno’r hen a’r newydd: fila Fictoraidd a adferwyd i greu hafan o foethusrwydd cyfoes. Mae’r pwyslais ar basta a bwyd môr, a bwydlen y bwyty’n amlwg dan ddylanwad gwreiddiau Eidalaidd y perchennog Marco a’i angerdd dros bysgota.
venetiawales.com

Parc Gwyliau Fferm Graeanfryn, Morfa Nefyn
Ar gyrion Morfa Nefyn, mae gan Ffermdy hardd Graeanfryn bedair ystafell braf i westeion. Mae brecwast yn cynnwys wyau hwyaid o dyddyn y perchennog Jan Harrison. Ar gyfer rhai â chanddynt anian fwy annibynnol, gallwch wersylla ar un o’r 40 llain sydd yma.
campingnorthwales.co.uk


Gwesty Tŷ Newydd, Aberdaron
Ym mhentref hardd a hanesyddol Aberdaron, mae’r gwesty hwn yn edrych yn syth dros y bae a’r traeth tywodlyd, un o draethau brafiaf a mwyaf diogel Pen Llŷn.
gwesty-tynewydd.co.uk

Chwarae

Ysgol Hwyllo Abersoch
Mae’r busnes teuluol hwn, sy’n cael ei redeg o brif draeth Abersoch, yn cynnig llu o weithgareddau, yn cynnwys hwylio, cychod pŵer, padlfyrddio, caiacio, pedalos, reidiau ringo a phrofiadau hwylio.
abersochsailingschool.co.uk

Nant Gwrtheyrn
Prin y gallai’r trigolion olaf i adael y pentref chwarel hwn ddegawdau’n ôl ddychmygu’r trawsnewidiad a ddigwyddodd yn y lleoliad syfrdanol hwn ar Ben Llŷn. Bellach, mae’r Nant yn gartref eto, i’r Ganolfan Iaith a Threftadaeth, gyda 24 o fythynnod gweithwyr wedi eu hadfer yn llety cysurus a deniadol.
nantgwrtheyrn.org

Plas Glyn y Weddw, Llanbedrog
Lleolir yr oriel gelf unigryw hon yn Llanbedrog. Mae’r plasty Fictoraidd Gradd II trawiadol yn lle perffaith i weld peth o gelf gyfoes gorau Cymru.
oriel.org.uk



Traphont Ddŵr Pontcysyllte, Llangollen

Mae mwy o adeiladau rhestredig yn **Ninbych** nac yn unrhyw dref arall yng Nghymru (255), ac mae’n llawer tawelach yma ers i’r Cymry a’r Saeson roi’r gorau i frwydro’n chwerw drosti. Bu’n dref farchnad ffyniannus ers cyfnod Elisabeth I, ac mae’n lleoliad gwych i aros ynddo er mwyn archwilio Bryniau Clwyd.



Mae llawer mwy o lefydd i’w harchwilio yng Nghymru, gwnewch yn siŵr eich bod yn mynd ar-lein am wybodaeth ac ysbrydoliaeth: croeso.cymru | northeastwales.co.uk

Bwyd / Diod	Aros
The Glass Onion Café. Mae’r bwyty bach prysur hwn oddi ar y Stryd Fawr yn boblogaidd gan bobl leol ac ymwelwyr. Daw enw’r caffi o un o ganeuon y Beatles ar y <i>White Album</i>. glassonioncafe.co.uk	Manorhaus Rhuthun Bwyty 5 seren gydag ystafelloedd yng nghanol y dref yw’r plasty trefol Sioraidd rhestredig Gradd II hwn bellach. Rhestrwyd y bwyty yn y <i>Michelin Guide</i> bob blwyddyn ers iddo agor yn 2010. manorhausruthin.com
Tyddyn Llan, Llandrillo Mae’r tŷ gwledig hardd hwn yn gartref i fwyty ag ystafelloedd sy’n darparu’r cynnyrch Cymreig gorau, ond mae’r perchnogion hefyd yn fwy na pharod i chwilio pedwar ban byd i sicrhau’r cynhwysion tymhorol gorau. Un o saith bwyty seren Michelin Cymru. tyddynllan.co.uk	Clwydian Wigwams, Rhuthun Ar fferm wartheg a defaid weithredol, â Bryniau Clwyd yn gefndir, mae’r wigwams cysurus hyn yn rhoi profiad ‘glampio’ i chi – gwersylla gyda moethusrwydd cartref. wigwamholidays.com
The Hand yn Llanarmon Derbyniodd y Prif Gogydd Grant Mullholland Rosyn yr AA am ragoriaeth coginio, a Chwpan Ŵy yr AA am frecwastau arbennig. Mae’r dognau’n hael, y cynnyrch yn lleol a’r coginio’n ffres a blasus. thehandhotel.co.uk	Gwely a Brecwast Castle House Mae’r gwely a brecwast 5 seren hwn yn cynnig moethusrwydd anffurfiol i westeion a golygfeydd gwych o Fryniau Clwyd. Adeiladwyd y lle fel cartref gŵr bonheddig ym 1720, a bu’r cyn-Brif Weinidog David Lloyd George yn ymwelydd ar un adeg. castlehousebandb.co.uk

Ble cefais fy magu, y cyfan welwn i o ffenestr fy ystafell wely oedd amlinelliad Bryniau Clwyd, cadwyn o 20 o fryniau sy’n rhedeg o Landegla i Brestatyn. Rhoddodd gryn awch i mi i archwilio’r ardal, ac mae hynny wedi aros gyda mi ar hyd fy oes.

Dwi’n dweud wrth ffrindiau sy’n ymweld i ddod ag esgidiau cerdded a beiciau. Os yw hi’n braf, mi awn ni ar antur. Os yw’n bwrw’n drwm, mi awn ni i’r dafarn. Beth bynnag wnewch chi, mae yna flas Clwyd penodol iddo. Mae bron fel clywed darn o gerddoriaeth gyfarwydd, ond ’dach chi’n methu cofio’i enw. Mae’n gysurus a chyfarwydd, ond allwch chi ddim cweit ddweud pam.



Iwan Edwards
Swyddog cymunedol ar gyfer Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru

Chwarae
Llyn Brenig, Cerrigydrudion Mae’r gwyntoedd cryfion yn golygu bod y llyn yn berffaith ar gyfer hwylio a dyma leoliad hwylio dŵr croyw uchaf y Deyrnas Unedig. Dyma hefyd un o’r pysgodfeydd arwyneb dŵr gorau yn y DU, a chynhaliwyd nifer o bencampwriaethau mawr pysgota plu yma. llyn-brenig.co.uk
Parc Gwledig Moel Famau Moel Famau yw pegwn uchaf Bryniau Clwyd – 1,818 troedfedd (554m) uwch lefel y môr. Gellir gweld Tŵr y Jiwbiil ar y copa am fil tiroedd o bob cyfeiriad. clwydianrangeanddeevalleyaonb.org.uk
Traphont Ddŵr Pontcysyllte, Llangollen Ydych chi’n ddigon dewr i groesi traphont ddŵr uchaf Prydain, sy’n 126 troedfedd (38m) o uchder? Gallwch gerdded ar draws y Safle Treftadaeth y Byd UNESCO hwn, neu arbed eich coesau a mynd ar gwch hamddenol. Ond cofiwch fynd â’ch camera – mae’r golygfeydd yn werth eu gweld. pontcysyllte-aqueduct.co.uk

Machynlleth.



©Fiona Black.

Ynyshir Hall

Mae’r farchnad wythnosol a gynhelir ar strydoedd *Machynlleth* bob dydd Mercher yn dyddio’n ôl i Siarter Frenhinol a gyhoeddwyd ym 1291. Ym ‘Mach’ (fel y bydd pobl yr ardal yn galw’r dref), cewch gwrdd â phobl sydd ar dân dros gelf, byd natur, bwyd iach a byw’n gynaliadwy.



Mae llawer mwy o lefydd i’w harchwilio yng Nghymru, gwnewch yn siŵr eich bod yn mynd ar-lein am wybodaeth ac ysbrydoliaeth: croeso.cymru | midwalesmyway.com

Bwyd / Diod	Aros
Wynnstay Mae bwyd da’r Wynnstay’n dechrau gyda’r cynhwysion. O Gymru, os yw’n bosibl, ac yn ddelfrydol oll o fewn 50 milltir (80km) i ddrws y gegin. Mae’r cogydd Gareth Johns yn dilyn maniffesto Bwyd Araf, sef ‘Da, Glân a Theg’. wynnstay.wales	The Old Rectory on the Lake, Tal-y-llyn Allwch chi byth â diflasu ar yr olygfa ogoneddus o’r Old Rectory. Ar lethrau Cader Idris, bydd gwesteion yn agor y llenni ar Lyn Mwyngil, yng ngwaelod Tal-y-llyn a’r clogwyni mawreddog o’u blaenau. rectoryonthelake.co.uk
Number Twenty One Mae’r bwyd yn greadigol, y gwasanaeth yn gyfeillgar, croeso i blant a dim byd yn ormod o drafferth yn y bwyty canol-tref hwn, sydd yng ngofal cwpl ifanc sy’n angerddol am fwyd. numbertwentyone.co.uk	Ynyshir Hall, Eglwys-fach Efallai y disgwylliech i’r gwesty gwledig moethus hwn weini bwyd traddodiadol crand; mewn gwirionedd, mae’r bwydlenni blasu’n llawn o sbort, gan gyfuno blasau lleol a rhyngwladol â steil a hiwmor. Un o saith bwyty seren Michelin Cymru. ynyshirhall.co.uk
Gwesty Glan yr Afon, Pennal Dyma dafarn wledig deuluol ar gyrion deheuol Parc Cenedlaethol Eryri, ble mae’r un croeso i bawb, p’un ai yw hynny ar gyfer peint sydyn amser cinio, neu i ddod â’r teulu ynghyd am ginio yn y bwyty. riversidehotel-pennal.co.uk	Castell Glandyfi Dyma gastell yn arddull yr adfywiad Gothig Regentaidd a restrwyd yn Radd II, fry uwch aber afon Dyfi, a golygfeydd dramatig o’r aber a’r môr tu hwnt. Er gwaetha’r lleoliad crand, nid yw’n ymhongar, ac mae croeso cynnes i bawb yma. glandyficastle.co.uk

Mae beicio yn ardal Bro Ddyfi’n gwneud i mi deimlo fod gen i gyswllt â’r tir. Un funud rydych chi’n sgrialu i lawr llethr garw brawychus, a’r creigiau’n hedfan oddi ar eich teiars a’ch calon yn curo fel gordd, wedi cyffroi’n llwyr. A’r funud nesaf, rydych chi’n taranu ar hyd llwybr sy’n gyforiog o olau’r haul, bysedd y cŵn yn brwydro am le, gwenyn yn hedfan yn ddiog o amgylch, nant yn byrlymu dan ei glannau mwsoglyd, arogl pinwydd yn eich ffroenau a barcutiaid coch yn cylchu uwchben. Mae’r cyferbyniad yn drawiadol. Dwi mor ddiolchgar o gael y cyfle i adnabod fy ngwlad fel y bu erioed – a chael amser cystal wrth wneud hynny! Dyma pam dwi wrth fy modd yn beicio mynydd yng Nghymru.



Rachel Atherton
Pencampwr beicio mynydd y byd

Chwarae
Canolfan y Dechnoleg Amgen Dyma ganolfan eco blaengar sy’n dangos egni’r gwynt, dŵr a’r haul gan ddefnyddio arddangosfeydd rhyngweithiol. Mae hefyd yn dangos enghreifftiau o fyw’n gynaliadwy ac yn annog pobl i wneud byw’n wyrdd yn rhan o’u bywydau bob dydd. cat.org.uk
Labyrinth y Brenin Arthur, Corris Dyma antur danddaearol sy’n adrodd stori, â rhaeadr hudol yn borth i’r Oesoedd Tywyll, amser myth, chwedl a’r Brenin Arthur ei hun. kingarthurslabyrinth.co.uk
Cader Idris O ran mawredd a harddwch elfennol, prin iawn yw’r lleoliadau sy’n gallu cystadlu â’r Warchodfa Natur Genedlaethol yng Nghader Idris. Yn ôl y chwedl leol, cawr a oedd yn byw ar y mynydd ysblennwyd hwn oedd Idris. cyfoethnaturiol.cymru



©Warren Orchard.

Glan môr Aberystwyth

Mae gan *Aberystwyth* boblogaeth fywiog o dros 10,000 o fyfyrwyr, sy’n rhoi cyffro unigryw i’r lle. Dyma leoliad delfrydol ar gyfer archwilio Mynyddoedd Cambria’n fwy trylwyr, ynghyd â’r wlad gyfagos ac ehangder Bae Ceredigion.



Mae llawer mwy o lefydd i’w harchwilio yng Nghymru, gwnewch yn siŵr eich bod yn mynd ar-lein am wybodaeth ac ysbrydoliaeth: [croeso.cymru](#) | [darganfodceredigion.cymru](#)

Bwyd / Diod		Aros	Chwarae
Baravin O’i safle arbennig ar y prom yn Aber, mae’r bwyty cyfoes hamddenol hwn yn gweini pizza, pasta a rhyfeddodau lleol eraill. Awyrgylch gwych. baravin.co.uk		Gwesty Cymru Gydag wyth o ystafelloedd braf a bwyty sydd wedi ennill gwobrau, lleolir Gwesty Cymru ynghanol promenâd Fictoraidd Aberystwyth, gyda golygfeydd dros Fae Ceredigion. Profiad diwylliannol Cymreig cyfoes. gwestycymru.com	Rheilffordd Cwm Rheidol Eisteddwch, ymlaciwch a gall y trên eich cludo ar daith atgofus drwy rai o olygfeydd gorau Cymru, gan gynnwys Rhaeadr Pontarfynach. rheidolrailway.co.uk
Y Ffarmers Tafarn wledig sy’n ymddangos yn rheolaidd yn y <i>Good Food Guide</i> yw’r Ffarmers, ym mhentref twt Llanfihangel y Creuddyn, ger Aberystwyth. Mae’r cogydd Rhodri Edwards a’i dîm yn canolbwyntio ar wneud y gorau o’r cynnyrch lleol rhagorol. yffarmers.co.uk		Nanteos Yn ôl y si, y llestr yfed pren hynafol a elwir yn Gwpan Nanteos yw’r Greal Sanctaidd. Dyna un bennod bwysig yn hanes lliwgar y plasty Sioraidd hwn, sydd wedi ennill gwobrau, a gallwch ddysgu mwy wrth i chi ymlacio yn yr amgylchedd gwledig moethus. nanteos.com	Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth Mae Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth, sy’n un o ganolfannau celfyddydau mwyaf y DU, wedi ennill sawl gwobr. Rhan o Brifysgol Aberystwyth ydyw, ac mae’n adnabyddus fel ‘canolfan flaenllaw ar gyfer y celfyddydau’, gan ddenu dros 700,000 o ymwelwyr bob blwyddyn. aberystwythartscentre.co.uk
Treehouse Siop fwyd a bwyty organig llawn cymeriad, gyda gwasanaeth cludo – ar feic! Mae’r bwyd yn ffres, yn lleol ac yn ateb pob gofyniad dietegol amrywiol. treehousewales.co.uk		Tynrhyd Retreat, Pontarfynach Mae’r cliw yn yr enw. Beudy gwyliau diarffordd o fewn cyrraedd i Fynyddoedd Cambria a’r arfordir. Mae digon i’w wneud os ydych chi’n teimlo’n egnïol, ond os nad ydych, dim ond cân yr adar fydd yn tarfu. tynrhyd.com	Bwlch Nant yr Arian Fe gewch chi olygfeydd godidog dros Fae Ceredigion a Mynyddoedd Cambria o’r Ganolfan Ymwelwyr. Oddi yno mae sawl llwybr ag arwyddbyst ar gyfer cerddwyr, beicwyr mynydd, rhedwyr a marchogion yn cychwyn. Ceisiwch drefnu eich ymweliad i gyd-fynd ag amser bwydo’r barcutiaid coch mawreddog, sy’n dod yma yn haid enfawr. cyfoethnaturiol.cymru



Cwm Elan

Denwyd y Rhufeiniaid i *Landrindod* gan ei ffynhonnau naturiol, a dyma a barodd i'r dref fod mor ffasiynol yn y 19eg ganrif hefyd. Mae Llandod (fel y'i gelwir yn lleol) yn manteisio ar leoliad strategol ynghanol Cymru sy'n golygu bod talpiau eang o'r Canolbarth yn hawdd cyrraedd atynt oddi yma.



Mae llawer mwy o lefydd i'w harchwilio yng Nghymru, gwnewch yn siŵr eich bod yn mynd ar-lein am wybodaeth ac ysbrydoliaeth: croeso.cymru | midwalesmyway.com

Bwyd / Diod		Aros	Chwarae
Sugar & Spice Mae'r bistro croesawgar, creadigol hwn yn eich syfrdanu pob tro â'i seigiau thema o bob cwr o'r byd. Newid braf i fwydlenni arferol. sugarandspicebistro.co.uk		Carlton Riverside, Llanwrtyd Lleolir y bwyty ag ystafelloedd hwn yn un o adeiladau hynaf y dref, gan gyfuno bwyd o'r radd flaenaf a chysur moethus mewn amgylchedd anarferol. carltonriverside.com	Cwm Elan Bu 70 milltir sgwâr (181km sgwâr) Elan o fywyd gwyllt ac antur yma ers Oes y Cerrig. Mae awyr y nos yma, a'r cynefinoedd a gynigir wedi iddi nosi, yn enwog ledled y byd. elanvalley.org.uk
Herb Garden Café Bydd llysieuwyr yn gwirioni ar y caffi hwn sydd reit yn ymyl gorsaf Llandrindod, er bod y seigiau cig hefyd yn rhagorol ar fwydlen amrywiol iawn. herbgardencafe.co.uk		Fferm Nannerth Fawr, Rhaeadr Un dewis hyfryd i aros ynddo ar y fferm 200 erw (81ha) hon yw'r cyn-ysgubor glyd – neu beth am lofft, neu garafán Romani neu babell? nannerth.co.uk	Abaty Cwm Hir Ewch ar daith o gwmpas y cartref Fictoraidd hynod hwn, sy'n cynnwys miloedd o bethau syfrdanol a gasglwyd, a golygfeydd dros yr abaty o'r 12fed ganrif, ble claddwyd Llywelyn ap Gruffudd, Ein Llyw Olaf. abbeycwmhir.com
Old Vicarage, Dolfor Mae nifer o gyflenwyr lleol – a gardd gegin y ficerdy ei hun – yn helpu i ddarparu'r detholiad swmpus a gynigir gan yr enillwyr gwobrau yma. theoldvicaragedolfor.co.uk		Lake Country House Hotel, Llangamarch Ymlacio'n llwyr yw'r nod yn yr encil mawreddog hwn sy'n blasty gwledig a sba. Ewch amdani a maldodi'ch hun yn llwyr. lakecountryhouse.co.uk	Fferm Gigrin, Rhaeadr Dim ond un peth allai wneud y fath sŵn a chyffro yma: y sesiynau porthi barcutiaid coch dyddiol ar y fferm 200-erw (81ha) gyfeillgar hon. gigrin.co.uk



Fforest, Cilgerran

Wrth i Afon Teifi gwrdd â'r môr, wele *Aberteifi*, ar y ffin rhwng Sir Benfro a Cheredigion. Ar un adeg, hwn oedd porthladd pwysicaf Cymru, a deil i gynnig digon o ryfeddodau naturiol. Mae'r dref dwt a'r dreftadaeth gyfoethog yn rhoi cefndir â naws yr oes a fu i ddiwylliant ffyniannus o gelf a chrefft, digwyddiadau a gwyliau cerddoriaeth.



Mae llawer mwy o lefydd i'w harchwilio yng Nghymru, gwnewch yn siŵr eich bod yn mynd ar-lein am wybodaeth ac ysbrydoliaeth: croeso.cymru | darganfodceredigion.cymru

Bwyd / Diod

Pizzatipi

O libart sy'n edrych dros afon Teifi, mae pedwar brawd (a'u ffrindiau) yn gweini pizzas blasus wedi eu coginio dros dân coed, cwrw cartref a gwin. pizzatipi.co.uk

Vic North, Trefdraeth

Angerdd yw'r tanwydd sy'n cynnal y deli a chaffi rhagorol hwn. Cynigir dosbarthiadau meistr yma hefyd – dyma eich cyfle i ddysgu'r triciau sy'n galluogi i'r hud ddigwydd. vicnorth.co.uk

Marchnad Cynnyrch Lleol Llandudoch

Daeth y farchnad bentref brysur wythnosol hon i'r brig yng Ngwobrau Bwyd a Ffermio BBC Radio 4 2016. stdogmaelsabbey.org.uk/producers_market

Aros

Castell Aberteifi

Â'i hanes lliwgar o dros 900 mlynedd, prif enwogrwydd Castell Aberteifi yw'r ffaith mai dyma ble cynhaliwyd yr Eisteddfod ddiwylliannol gyntaf ym 1176. cardigancastle.com

Fforest, Cilgerran

Casgliad o ddewisiadau llety unigryw, yn cynnwys cabanau, pebyll cloch a ffermdy Sioraidd. Perffaith ar gyfer mwynhau pleserau bywyd. coldatnight.co.uk

Dolly the Circus Waggon

Ymlaciwch mewn wagen syrcas wedi'i hadnewyddu, gyda pharlwr, cegin ac ystafell wely, wrth ochr ffermdy carreg o'r 18fed ganrif. ffynnonf.co.uk

Chwarae

Chwilio am Ddolffiniaid

Mae cael cipolwg ar asgell ddorsal yn ddigon i gyffroi. Mae'n debyg y gwelwch chi forloi llwydion hefyd. baytoremember.co.uk

Canolfan Natur Cymru

Chwiliwch ar hyd y pedwar llwybr am y mochyn daear helygen enfawr, glas y dorlan ac, os ydych chi'n ffodus, ychen dŵr preswyl y ganolfan. welshwildlife.org

Ceunant Teifi

O forydau coediog i glogwyni gwyllt, rhwyfchwch ar hyd y daith 12 milltir (19km) hardd o Aberteifi i Aberporth mewn canŵ. ceredigioncoastpath.org.uk



Arfordir Penrhyn Dewi

Mae *Tyddewi*, dinas leiaf Prydain, yn gartref perffaith i hanes cyfareddol, traethau anhygoel a chymuned fywiog. Dyma bwynt mwyaf gorllewinol Cymru, ac mae ynysoedd hudol Sir Benfro a Bae Sain Ffraid oll o fewn cyrraedd.



Mae llawer mwy o lefydd i'w harchwilio yng Nghymru, gwnewch yn siŵr eich bod yn mynd ar-lein am wybodaeth ac ysbrydoliaeth: croeso.cymru | visitpembrokeshire.com

Bwyd / Diod
Cwtch Mae'r bwyty clyd hwn wedi ennill llw o wobrau ers iddo agor yn 2005. Rhaid galw yma – ond byddai'n ddoeth archebu lle ymlaen llaw. cwtchrestaurant.co.uk
The Refectory at St Davids Prin iawn yw'r bwytai mewn lleoliad mor fawreddog â hwn, drws nesaf i'r gadeirlan. Mae'r fwydlen yn cynnwys cawsiau a chigoedd o Sir Benfro. stdavidsrefectory.co.uk
Cambrian Inn, Solfach Mae gan y dafarn hon o'r 16eg ganrif enw da am fwyd a chwrw arbennig, diolch i berchnogion sydd ar dân dros Sir Benfro. thecambrianinn.co.uk

Aros
Gwesty Twr y Felin Mae'n ddigon hawdd ymlwybro i rai o draethau gorau Sir Benfro o westy celf cyntaf Cymru, sy'n gartref i 100 o weithiau gwreiddiol, llety moethus a bwyd rhagorol. twryfelinhotel.com
Fferm Caerfai Gallwch ymlacio a darganfod yr ardal o'r bythynnod gwyliau hardd hyn, pob un â'i ardd ei hun. Mae'r gwersyll yn arwain yn syth at Lwybr Arfordir Penfro. caerfaifarm.co.uk
Gwersylla Coetir Trelyn, Abercastell 'Gwersylla cŵl' yw arwyddnod y safle hynod boblogaidd hwn. Mae iyrtau, tipis a chromen glampio geo-eco ar gael. trelyn.co.uk

Dwi'n llawn angerdd dros Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro, pob modfedd ohono, ond mae yna un lle arbennig dwi'n dwli arno. Dyma ble gallaf eistedd yn dawel ar y cei yn y bore bach pan na fydd neb arall o gwmpas. Yn hwyrach yn y dydd gallaf wyllo'r prysurdeb hamddenol wrth i'r dyffryn bach dyfrllyd, a luniwyd filiynau o flynyddoedd yn ôl gan ddŵr tawdd rhewlifol, ddechrau prysuro gyda chaiacau, canŵod a chychod.
Dwi'n dwlu gweld y blodau gwylltion sy'n ffrwydro'n fyw o amgylch y cei yn ystod y gwanwyn, a gwn eu bod wedi rhoi pleser i genedlaethau o'm blaen. Mae yna hen ddywediad, 'Mae cusanu yn ei dymor pan fydd yr eithin yn blodeuo.' Mae fel petai'n blodeuo drwy'r flwyddyn ym Mhorth-clais...
wildaboutpembrokeshire.co.uk

Julia Horton-Powdrill
*Anturiwr bwyd gwyllt
a sylfaenydd Gŵyl Really Wild*



Chwarae
Eglwys Gadeiriol Tyddewi Cymharwyd yr eglwys gadeiriol hon â safleoedd mwyaf sanctaidd Rhufain gan y Pab unwaith. Ymysg yr uchafbwyntiau mae'r gosber a gŵyl gerddoriaeth glasurol wych yn ystod yr haf. stdavidscathedral.org.uk stdavidscathedralfestival.co.uk
TYF Adventure Gadewch i'r tîm hwn o arbenigwyr, a fu'n anturio ar hyd eu hoes, ddangos cyffro arfordira, caiacio, syrffio a saffari pyllau glan môr i chi. tyf.com
Voyages of Discovery Dewch i gwrdd â dolffinaid, morloi, palod, llamidyddion ac adar y môr ar daith gwch hyfryd o amgylch ogofâu a cheunentydd Ynys Dewi. ramseyisland.co.uk



Glan môr Dinbych-y-pysgod

Gyda’i thraethau bendigedig, awyrgylch cynnes a thai Fictoraidd braf wedi eu peintio mewn lliwiau siwgr candi, mae *Dinbych-y-pysgod* yn un o drefi glan môr harddaf a mwyaf twt Cymru, ac yn borth i dde Sir Benfro. Mae enw’r dref, Dinbych-y-pysgod, yn cyfeirio at yr harbwr bach pert ger Bryn y Castell.



Mae llawer mwy o lefydd i’w harchwilio yng Nghymru, gwnewch yn siŵr eich bod yn mynd ar-lein am wybodaeth ac ysbrydoliaeth: croeso.cymru | visitpembrokeshire.com

Bwyd / Diod		Aros	Chwarae
Blue Ball Mae’r Blue Ball, sy’n ffefryn gan feirniaid a hoffwyr bwyd, yn arbenigo mewn pysgod a chig wedi’i fygu. Dewis da ar gyfer cinio Sul. theblueballrestaurant.co.uk		Gwesty St Brides Spa, Saundersfoot Gwesty ar ben clogwyn ble gallwch ymlacio yn y pwll anfeidredd awyr agored â golygfa dros draeth Saundersfoot – mae’r dŵr yr un tymheredd â gwaed, waeth beth fo’r tywydd. stbridesspahotel.com	Amgueddfa Dinbych-y-pysgod Efallai mai dyma’r lleoliad gorau ar gyfer unrhyw amgueddfa, ar bentir Bryn y Castell. Fe welwch lawer o hanes lleol yma, a chasgliad da o gelfyddyd gain. tenbymuseum.org.uk
Coast Saundersfoot Mae gan y bwyty hwn, sydd wedi ennill sawl gwobr, yn cynnwys Bwyty’r Flwyddyn yr AA yng Nghymru, olygfeydd arbennig o’r traeth. Mae’r bwyd yn dda hefyd, ymysg y seigiau mae cig carw lleol a lafa siocled. coastsaundersfoot.co.uk		Celtic Haven, Lydstep Mae’r encilfeydd hunanarlwyo hyn, sydd a’u gwreiddiau yn y 12fed ganrif, yn cynnig popeth, o fythynnod clyd i ddau i blasty sy’n cynnig gwely i 12. celtichaven.co.uk	Heatherton World of Activities Canolfan hwyl i’r teulu cyfan. Mae peledu paent, go-cartio, pysgota, golff, bowls dan do a phêl-fas ymysg y dewisiadau. heatherton.co.uk
Salt Cellar Creodd y pedwar cyfaill sy’n rhedeg y bwyty cymharol newydd hwn fwydlen flasmus iawn a ysbrydolwyd gan harddwch naturiol Cymru. Mae Rhosyn Dwbl yr AA a ddyfarnwyd i’r lle’n ddiweddar yn llwyr haeddiannol. thesaltcellartenby.co.uk		Trefloyne Manor Mae tŷ llety teuluol Trefloyne, sy’n edrych dros y cwrs golff, yn cynnig llety aros a chwarae gyda theimlad gwirioneddol o steil a moethusrwydd. Yn gymaint felly, fe enillodd wobrau! trefloyne.com	Llynnoedd Bosherton Mae’r dyfrgi, gwas y neidr ac adar gwylltion yn ffynnu yn y Warchodfa Natur Genedlaethol hon. Mae’r llynnoedd yn garped o flodau lili, ar eu gorau yn hwyr yn y gwanwyn / dechrau’r haf. Lleoliad hudol. visitpembrokeshire.com



Y Sied Ysgrifennu, Cartref Dylan Thomas

Os oes un dyn sy’n crynhoi ysbryd creadigol Cymru, Dylan Thomas yw hwnnw. Os oes un lle, *Talacharn* yw hwnnw. Mae hen gynefinoedd Dylan rownd pob cornel, ynghyd â bwyd a diod gwych, manau arbennig i aros a golygfeydd trawiadol ar draws y dref a Sir Gaerfyrddin.



Mae llawer mwy o lefydd i’w harchwilio yng Nghymru, gwnewch yn siŵr eich bod yn mynd ar-lein am wybodaeth ac ysbrydoliaeth: croeso.cymru | darganfodsirgar.com

Bwyd / Diod
Browns Roedd Dylan Thomas yn yfed yn Browns ac yn rhoi rhif ffôn y dafarn fel ei rif ei hun. Mae’r gwely a brecwast bwlic yn defnyddio dillad gwely Cymreig. browns.wales
Cors Mewn tŷ a gardd Fictoraidd sy’n orlawn o weithiau celf modernaidd, mae Cors yn cyfuno lleoliad atmosfferig â bwyd syml, bendigedig. thecors.co.uk
Yr Hen Dafarn, Llansteffan Gan arbenigo mewn seigiau pysgod lleol, mae ansawdd rhagorol bwyd y trysor hwn yn golygu na fydd yn gyfrinach am hir. llansteffan.com/yrhendafarn

Aros
Y Corran Gyda bwthyn clyd, ysgubor fawr helaeth a sba, mae’r Corran estynedig yn lle arbennig ar gyfer gwsteion sy’n chwilio am foethusrwydd a hamddena. thecorran.com
Jabajak, Llanboidy Bwyty ag ystafelloedd 5 seren yw Jabajak, gyda’i winllan ei hun. Fe’i lleolir mewn hen dŷ fferm, a chanddo gysylltiadau â’r Tŷ Gwyn ac ail arlywydd yr Unol Daleithiau, John Adams. jabajak.co.uk
Parc Gwyliau Pendine Sands Daflad carreg o’r traeth ac ynghanol cefn gwlad braf, mae’r parc hwn yn eich gosod mewn lle delfrydol i ddarganfod Dinbych-y-pysgod a Thalacharn. parkdeanholidays.co.uk

Chwarae
Cartref Dylan Thomas Syllwch drwy wydr y drws i’r Sied Ysgrifennu yn hen gartref yr awdur, sy’n edrych yn union fel pe bai Dylan wedi picio am beint sydyn. cartrefdylanthomas.com
Castell Talacharn Gallwch ymweld â’r castell canoloesol ysbennnydd hwn a ddaeth yn blasty Tuduraidd, i weld ble cafodd Dylan Thomas yr ysbrydoliaeth delynegol i adfer ei awen. cadw.llyw.cymru
Tin Shed Experience Tîm o wirfoddolwyr sy’n gofalu am arteffactau cyfareddol o ddechrau’r 20fed ganrif yn yr amgueddfa hynod hon am y 1940au. tinshedexperience.co.uk

Llandeilo.



Trwy garedigrwydd Wright's Food Emporium.

Wright's Food Emporium

Lleolir *Llandeilo'n* dwt ar fryn sy'n edrych dros un o ddyffrynnoedd hyfrytaf Cymru. Ceir yma ddigonedd o siopau bwtic a chaffis i bori ynddynt, a sawl gŵyl flynyddol i'w mwynhau. Mae taith gerdded fer drwy warchodfa natur goediog yn mynd â chi i Gastell Dinefwr, hen brifddinas frenhinol y Deheubarth.



Mae llawer mwy o lefydd i'w harchwilio yng Nghymru, gwnewch yn siŵr eich bod yn mynd ar-lein am wybodaeth ac ysbrydoliaeth: croeso.cymru | darganfodsirgar.com

Bwyd / Diod

Ginhaus Deli
Mae'n waith caled dewis rhwng 250 math gwahanol o jin, felly rydyn ni'n dueddol o ofyn i'r staff cyfeillgar ddewis o blith detholiad y dydd (ac ni'n siomwyd hyd yma). Bwyd caffi-deli o safon uchel iawn gewch chi yma. ginhaus.co.uk

Wright's Food Emporium, Llanarthne
Dychmygwch fod eich coginio cartref yn berffaith bob tro. Dyna Wright's. Heidia'r bwyd-garwyr yma, ac mae amser cinio'n boblogaidd, ond gweinir swper ar y penwythnos, a bwyd nos gwadd gan gogyddion adnabyddus. wrightsfood.co.uk

Y Polyn, Nantgaredig
Dim nonsens ôl-fodernaidd ewynnog yma. Dim ond cynnyrch bendigedig wedi'i goginio'n syml â pharch, mewn hen dafarn wledig hyfryd. ypolyn.co.uk

Aros

Y Cawdor
Arferai'r goets fawr aros yn y dafarn sylweddol hon, ac mae'n dal i deimlo eich bod chi yn ei chanol hi yng nghanolbwynt cymdeithasol byrlymus Llandeilo. Mae'r bwyd yn dda iawn, hefyd (a'r platiad yn helaeth – gwlad ffermio ydyw, cofiwch). thecawdor.com

Llwyn Helyg
Mae'r plasty gwledig moethus hwn, a godwyd o ddim yng nghanol Dyffryn Tywi, eisoes wedi ennill llond trol o wobrau. Cynhelir nosweithiau cerddoriaeth yma hefyd, i fanteisio ar sain eithriadol yr 'Ystafell Wrando'. llwynhelygcountryhouse.co.uk

Y Castell, Llanymddyfri
Mae hen dafarn y goets fawr yn Llanymddyfri, nid nepell o Landeilo, yn onest iawn am ei hystafelloedd (Da, Gwell a Gorau), a'r fwydlen yn hyrwyddo lles bwydydd lleol o ansawdd rhagorol. castle-hotel-llandoverly.co.uk

Chwarae

Castell Dryslwyn
Efallai fod Carreg Cennen yn fwy trawiadol, a Dinefwr yn fwy hanesyddol. Ond mae 'na rywbeth arbennig am adfeilion y castell hwn, hen gartref y tywysog Rhys Gryg o'r 12fed ganrif, â golygfeydd bythgofiadwy o Ddyffryn Tywi islaw. Erys hudoliaeth yn Nryslwyn. cadw.llyw.cymru

Aberglasne
Unwaith eto, dyma ni'n hybu'r brawd bach. Mae Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru gerllaw yn fwy, ond i'r tŷ hardd hwn o'r 17eg ganrif a'r ardd bromenâd o oes Elisabeth I a adferwyd mor hyfryd y bydd trigolion lleol yn dueddol o ddychwelyd dro ar ôl tro. aberglasney.org

Coedwig Brechfa
Mae'r llwybrau beicio mynydd sy'n taranu drwy'r goedwig enfawr hon yn berffaith ar gyfer pob gallu, tra bo'r lonydd tawel yn berffaith ar gyfer beiciau ffordd. Byddai'n anghwrtais peidio galw am beint wedi'r reid yn y Black Lion yn Abergorlech. mbwales.com blion.co.uk



Trwy garedigrwydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Yng nghanol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, saif tref farchnad ddeniadol *Aberhonddu* yng nghysgod tair cadwyn o fynyddoedd. Dyma le perffaith i fynd i grwydro'r mynyddoedd a'r rhaedrau cyfagos ohono, ar droed neu mewn car, syllu ar y sêr, a chael pob math o anturiaethau gyda'r teulu.



Mae llawer mwy o lefydd i'w harchwilio yng Nghymru, gwnewch yn siŵr eich bod yn mynd ar-lein am wybodaeth ac ysbrydoliaeth: croeso.cymru | midwalesmyway.com

Bwyd / Diod	Aros	Chwarae
Felinfach Griffin Tafarn glyd sy'n lle da i dorri eich siwrne mewn steil. Bwyd blasus iawn a tân coed i'ch cynhesu. felinfachgriffin.co.uk	Peterstone Court Mae Peterstone, <i>chic</i> ac unigryw, yn dal i fod yn driw i'w dreftadaeth Sioraidd, ond ychwanegwyd steil ymlaciol, manylion cŵl ac elfennau modern. peterstone-court.com	Camlas Mynwy ac Aberhonddu Dyma hafan i fywyd gwyllt sy'n cael ei dewis yn aml fel camlas harddaf Prydain. Hwylwch ar fad camlas, cwch modur bach neu gwch trydan eco-gyfeillgar. canalrivertrust.org.uk
Three Horseshoes Mewn lleoliad gwledig perffaith, mae'r dafarn hon, a fu yng ngofal yr un teulu ers 25 mlynedd, wedi ennill gwobrau lu. threehorseshoesgroesffordd.co.uk	Crai Valley Eco Lodges Casgliad syfrdanol o gabanau hunan-ddarpar gan fusnes teuluol ar fferm wartheg a defaid organig 330-acer (133ha). Lleoliad delfrydol i fwynhau ŵyn yn prancio, barcutiaid coch yn esgyn a golygfeydd o gynhaeaf yr hydref. craivalleyecolodges.co.uk	Pen y Fan Mae'r golygfeydd o begwn uchaf Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn ysblennydd – gyda detholiad o lwybrau sy'n addas i'r rhan fwyaf o gerddwyr. bannaubrycheiniog.org
Gurkha Corner Prin y gall unlle gystadlu â Nepal o ran cynnig blasau amrywiol, ond gan weithio oddi ar forter carreg, mae'r cogyddion yma'n ail-greu arddull sbeislud y wlad ar ben y byd. gurkhacorner.co.uk	Gliffaes Country House Hotel, Crucywel Cyfrinach sy'n cuddio mewn 33 erw ddiarffordd rhwng Bannau Brycheiniog a'r Mynyddoedd Duon yw Gliffaes, a adeiladwyd ym 1888. gliffaeshotel.com	Gwlad y Sgydau, ger Castell-nedd Yn ardal ysblennydd Gwlad y Sgydau mae'r nifer fwyaf o rhaedrau, ogofâu a cheunentydd ym Mhrydain. Ewch i raeadr dalaf Bannau Brycheiniog, Sgwd Henrhyd, sef lleoliad y Bat Cave yn <i>The Dark Knight Rises</i> . breconbeacons.org/waterfall-country




The Hardwick

Yn ne-ddwyrain Bannau Brycheiniog, mae'r *Fenni'n* dref farchnad ag iddi enw da am fwyd rhagorol. Mae'n cynnal un o wyliau bwyd gorau'r byd bob mis Medi, ac yn gartref i rai o fwytai gorau'r wlad. Mae cefn gwlad hyfryd Sir Fynwy gam a naid i ffwrdd.



Mae llawer mwy o lefydd i'w harchwilio yng Nghymru, gwnewch yn siŵr eich bod yn mynd ar-lein am wybodaeth ac ysbrydoliaeth: croeso.cymru | visitmonmouthshire.com

Bwyd / Diod	Aros	Chwarae
The Hardwick Mae bwydlen ragorol The Hardwick, a redir gan ŵr a gwraig, yn arbenigo mewn cynnyrch tymhorol a lleol. Byddwch yn ei chael hi'n anodd dewis yn y bwyty hwn sydd wedi ennill gwobrau. thehardwick.co.uk	Gwesty'r Angel Cartref preifat a thafarn ble safai'r goets fawr ar ei ffordd i Lundain oedd yr Angel yn y 1800au. Bellach mae'n westy sy'n ennill llw o wobrau. angelabergavenny.com	Marchnad y Fenni Mae'r neuadd farchnad Fictoraidd ar Stryd y Groes yn dal i fod yn lle i chwilota am bethau na fydddech chi'n eu cael mewn siopau arferol. Facebook: Abergavenny Market
Clytha Arms Peint cyflym? Tapas blasus? Mae'r dafarn wledig hon wedi hen sefydlu fel lle am fwyd da, gyda soffas a than agored. clytha-arms.com	Llansantffraed Court Mwynhewch swyn yr oes a fu a phleserau cartref mewn lleoliad 20 erw (8ha) o harddwch naturiol syfrdanol. llch.co.uk	Gwaith Haearn Blaenafon Roedd y gwaith haearn hwn, sy'n rhan o Dirwedd Ddiwydiannol Blaenafon, Safle Treftadaeth y Byd UNESCO, yn garreg filltir yn stori'r Chwyldro Diwydiannol. Dodrefnwyd y bythynnod hardd i ddangos tri chyfnod gwahanol. cadw.llyw.cymru/ daysout/blaenavonironworks
Skirrid Mountain Inn Nid oerfel, na'r peint, fydd yn rhoi'r 'ias fawr' i chi yn nhafarn hynaf Cymru – a'r un â'r mwyaf o ysbrydion hefyd. Bu yma ers naw canrif. skirridmountaininn.co.uk	The Bear Hotel, Crucywel Mae cynhesrwydd a chroeso'r Bear, hen dafarn y goets fawr, yn draddodiad 500 mlynedd. Gallwch aros mewn ystafelloedd â thrawstiau derw a chyn-stablau. bearhotel.co.uk	Ysgyryd Fawr Un o saith bryn sy'n amgylchynu'r Fenni, dyma'r un mwyaf gwerth chweil i blant. Dilynwch y llwybr i adfail yr hen gapel. ymddiriedolaethgenedlaethol.org.uk



©Patrick Oher. trwy garedigrwydd Redhouse.

Redhouse

Gwe gymhleth o ramant, gwaith caled a gwroldeb yw stori *Merthyr Tudful*. Daw enw'r dref ar ôl y dywysoges Tudful a ferthyrwyd yma yn y 5ed ganrif. Erbyn canol y 19eg ganrif, hon oedd tref fwyaf Cymru, ei gwaith haearn yn gyrru grym amrwd diwydiant Cymru. Bellach, dyma leoliad perffaith ar gyfer mynd am dro pell, anturiaethau beicio mentrus a dyddiau allan gwyach.



Mae llawer mwy o lefydd i'w harchwilio yng Nghymru, gwnewch yn siŵr eich bod yn mynd ar-lein am wybodaeth ac ysbrydoliaeth: croeso.cymru | thevalleys.co.uk

Bwyd / Diod

Jol's

Y dewis poblogaidd hwn yw menter newydd y prif gogydd Jamie O'Leary, a gafodd ei fentora gan Stephen Terry yn The Hardwick yn y Fenni. Wedi ei ysbrydoli gan atgofion o goginio ei fam-gu o Ferthyr, mae Jol's yn cynnig bwyd syml a blasus ar ei orau.

jolsfoodco.co.uk

Plas Coffi

Yn ychwanegu swyn dinesig i ddetholiad Merthyr o lefydd bwyta poblogaidd, mae Plas Coffi yn fwyty cegin cyfeillgar sy'n arbenigo mewn clasuron i'ch bodloni a pizza wedi coginio dros dân coed.

plascoffi.co.uk

The Old Barn Tea Room, Pontsticill

Ger cronfa Pontsticill, mae'r ysgubor hon o'r 18fed ganrif yn lleoliad poblogaidd am de hufen a chinio dydd Sul.

Facebook: [The Old Barn Tea Room](https://www.facebook.com/TheOldBarnTeaRoom)

Aros

Nant Ddu Lodge

Beth am ychydig o foethusrwydd yn y sba hwn mewn gwesty hardd ar ffin Bannau Brycheiniog? Lleoliad delfrydol ar gyfer penwythnos rhamantus neu egnïol.

nant-ddu-lodge.co.uk

Winchfawr Lodges

Llety moethus fforddiadwy sy'n addas ar gyfer beicwyr a heicwyr. Gyda BikePark Wales a Llwybr Taf gerllaw, mae'n ganolfan ddelfrydol ar gyfer atyniadau lleol ac anturiaethau hirach, caletach.

winchfawrlodge.co.uk

Gwely a Brecwast Arfryn House

Gyferbyn â chronfa Llwyn-On, mae'r gwely a brecwast clyd hwn yn cynnig brecwast cartref a phhecyn bwyd os oes angen un ar gyfer eich diwrnod allan. Gyda Phen y Fan ar eich trothwy, byddai'n ffolineb i anghofio eich esgidiau cerdded.

arfrynhouse.com

Chwarae

BikePark Wales, Coed Gethin

Bernir mai dyma barc beicio gorau'r Deyrnas Unedig, lleoliad allweddol ar gyfer beicwyr o bob gallu. Yma mae'r llwybrau naid gorau, disgyniadau a darnau garw i fodloni eich awch – neu gylchdaith hamddenol i'r teulu oll.

bikeparkwales.com

Castell ac Amgueddfa Cyfarthfa

Cewch flas o fywyd y teulu Crawshay, meistri haearn Merthyr, yn eu hen dŷ crand. Gallwch dreulio diwrnod yn crwydro orielau, amgueddfa a thir parc braf y safle – bydd y lle chwarae a'r rheilffordd fechan yn boblogaidd gyda'r plant hefyd.

cyfarthfa.com

Redhouse

Atgyfodwyd Hen Neuadd y Dref ym Merthyr ar ffurf y Redhouse. Pan adeiladwyd yr adeilad brics coch rhestredig Gradd II hwn ym 1896, roedd yn gartref i'r llys ynadon, siambr y cyngor a chelloedd. Bellach mae'n gartref i fwyty, theatr, oriel a lleoliad cerddoriaeth fyw.

redhousecymru.com



Llangennydd, Penrhyn Gŵyr

Abertawe yw’r porth i Benrhyn Gŵyr, Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol cyntaf y Deyrnas Unedig. Mae’n llawn o draethau bendigedig, cefn gwlad digyffwrdd a bwyd da. Dyma ardal wych i gerdded, beicio, gwneud chwaraeon dŵr a golffio, ac mae gan y ddinas y farchnad dan do hynaf, fwyaf (ac o bosib yr orau) yng Nghymru.



Mae llawer mwy o lefydd i’w harchwilio yng Nghymru, gwnewch yn siŵr eich bod yn mynd ar-lein am wybodaeth ac ysbrydoliaeth: croeso.cymru | dewchifaeabertawe.com

Bwyd / Diod

Gwesty Morgans
Pice ar y maen, sgons a siampên mewn adeilad a sefydlwyd ym 1902. Enwyd yr ystafelloedd ar ôl llongau a wnaed yn Abertawe. morganshotel.co.uk

Slice
Dysgwch sut y cyfareddodd y ddau gogydd sy’n gyfrifol am y bwyty agos atoch, poblogaidd hwn y *Michelin Guide* a *Great British Menu* y BBC. sliceswansea.co.uk

Gwesty King Arthur
Dewch i amsugno awyrgylch ymlaciol y dafarn a phrofi’r fwydlen dymhorol mewn tŷ llawn ysbrydion a enwyd ar ôl Carreg Arthur gerllaw. kingarthurhotel.co.uk

Aros

Fairyhill
Dyma ddihangfa foethus o’r 18fed ganrif, ble gallwch ymlacio ymysg 24 erw (10ha) o lawntiau, coedwig, nentydd a llynnoedd, heb sôn am fwyty nodedig iawn. fairyhill.net

Patricks with Rooms
Mae’r gwesty a bwyty teuluol hwn, a sefydlwyd ym 1993, yn lle gwych i fwynau’r Mwmbwls mewn moethusrwydd. patrickswithrooms.com

Scamperholidays
Yng nghanol hyfrydwch Penrhyn Gŵyr, mae’r cytiau bugail clyd hyn yn llefydd gwych i ymlacio. Ewch i glampio mewn steil. scamperholidays.co.uk

Ym Mhorthcawl y ces fy magu, ond pan o’n i’n grwt, byddwn i wrth fy modd yn mynd i Fae Caswell yn yr haf, gyda bwced a rhaw. Ar lanw isel ro’n i’n dwlu anturio yn yr ogofâu.
Yn fy arddegau, cefais fy annog i roi cynnig ar wersi syrffio gyda grŵp anabledd, ym Mae Caswell. Mae gen i awtistiaeth gweithredu lefel uchel – ac er bod syrffio’n anodd i ddechrau, roeddwn i’n mwynhau’r tonnau, sydd i’w cael bron bob dydd ym Mae Caswell. Roeddwn i’n ei fwynhau cymaint nes mod i’n dal i fynd yno bob wythnos, saith mlynedd yn ddiweddarach oni bai ei bod hi’n storm enbyd. Os yw’r môr yn dawel, dwi’n gallu mentro i Brandy Cove i archwilio’r ogofâu mawr. Mae’n un o’r rhesymau pam dwi’n hoffi Caswell a pham ei fod yn un o’r llefydd gorau i ymweld ag ef yng Nghymru. surfabilityukcic.org



Luke Hemfrey
Syrffiwyr ar Benrhyn Gŵyr

Chwarae

Bae’r Tri Chlogwyn
Profwch wylltineb clogwyni, traethau a thwyni un o rannau mwyaf ffotogenig Llwybr Arfordir Gŵyr. dewchifaeabertawe.com

Ysgol Syrffio Gŵyr
P’un ai ydych yn syrffiwyr profiadol neu’n mynd am y tro cyntaf, mae’r ysgol enwog hon yn ymfalchio mewn bod yn gynhwysol ac yn hwyliog o’r cwt ar y prom. gowersurfing.com

Amgueddfa Genedlaethol y Glannau
Plymiwch i hanes diwydiannol a morol Cymru, yn awyrgylch trawiadol hen warws glan y môr a adferwyd a’i gyfuno ag amgueddfa gyfoes o lechen a gwydr. amgueddfa.cymru/abertawe



Trwyn Nash, Bro Morgannwg

Tref farchnad fechan hynod chwaethus yw’r **Bont-faen**. Gall olrhain ei gwreiddiau i gyfnod y Rhufeiniaid, a thref gaerog o’r oesoedd canol, ond heddiw mae’n gyfuniad ffyniannus o siopau annibynnol, siopau bwtîc, bwytai a thafarndai. Cynhelir gŵyl fwyd flynyddol yma ac mae’r lleoliad ger Arfordir Treftadaeth Morgannwg yn ei wneud yn ddewis deniadol ar gyfer gwyliau bach.



Mae llawer mwy o lefydd i’w harchwilio yng Nghymru, gwnewch yn siŵr eich bod yn mynd ar-lein am wybodaeth ac ysbrydoliaeth: croeso.cymru | visitthevale.com

Bwyd / Diod

Hare and Hounds, Aberthin
Ydi, mae’r Hare and Hounds ei hun yn 300 mlwydd oed, ond mae’r Tŷ Cwrw / Ystafell Fwyta newydd yn hardd i ryfeddu. Coginir popeth yma o’r dechrau, o fara surdoes i fenyn cartref. hareandhoundsaberthin.com

Arboreal
Llwyddodd y perchnogion i greu amgylchedd diddorol ac ysbrydoledig yn y bwyty canol tref hwn, sydd wedi ennill gwobrau. Mae’n canolbwyntio ar fwyd syml, gonest a gwasanaeth o’r radd flaenaf. arboreal.uk.com

The Market Place
Lleolir y bwyty hwn, sy’n cynnig ffefrynnau ac elfennau newydd dyfeisgar, mewn tŷ a adeiladwyd ar y waliau canoloesol. Hanes a gastronomieg, oll dan un to. the-marketplace.co.uk

Aros

The Bear
Lle chwedlonol yn y Bont-faen, â digonedd o gymeriad ac awyrgylch. Gellir olrhain hanes y Bear i’r 12fed ganrif, ac mae’r bar derw a’i lawr cerrig yn estyn yr un croeso i ffermwyr yn eu welis a merched *chic* sy’n sipian siampên. townandcountrycollective.co.uk

Penfistla Barn
Mewn lleoliad gwledig ger y Bont-faen, mae’r ysguboriau carreg hardd hyn yn darparu ar gyfer unrhyw un sy’n chwilio am fywyd tawelach. Â bryniau gwyrdd o’ch cwmpas a stof goed i’ch cadw’n glyd, dyma berffeithrwydd. penfistla.com

Stockwood Mews
Yng nghanol y Bont-faen, mae’r bwthyn a fflatiau’n cynnig blas cyfoes ar fywyd tref wledig. Daflad carreg o’r tafarndai a siopau lleol hefyd. visitthevale.com

Chwarae

Gardd Berlysiau’r Bont-faen
Gardd gaerog o’r 18fed ganrif, wedi ei hadfer, a drefnwyd yn 12 adran o gwmpas ffynnon. Cyfeiria pob adran at rinweddau iachol pob planhigyn ar ran benodol o’r corff. cowbridgephysicgarden.org.uk

Gwinllan Llanerch, Hensol
Beth am daith o gwmpas y winllan a sesiwn flasau, neu bachwch le ar gwrs byr neu swper *pop-up* y gogyddes deledu Angela Grey yn yr ysgol goginio. llanerch-vineyard.co.uk

Trwyn Nash
Ceir golygfeydd aruthrol ar hyd Arfordir Treftadaeth Morgannwg o Drwyn Nash. Â’r cerrig garw, y pyllau glan môr, y goleudy a’r tonnau’n corddi, dyma fan sy’n falm i’r enaid. valeofglamorgan.gov.uk



Y Senedd, Bae Caerdydd.

Mae **Caerdydd**, prifddinas ieuengaf Ewrop, hefyd yn un o’r dinasoedd hawsaf i’w mwynhau. Yn y canol cryno, cewch siopa, bwyta a diwylliant gwych, ynghyd â hanes cyfoethog a chyffro chwaraeon rheolaidd hefyd. Mae gogoniant Bro Morgannwg, a hen gymunedau glofaol cyfareddol y Cymoedd ar ei throthwy.



Mae llawer mwy o lefydd i’w harchwilio yng Nghymru, gwnewch yn siŵr eich bod yn mynd ar-lein am wybodaeth ac ysbrydoliaeth: croeso.cymru | visitcardiff.com

Bwyd / Diod

Bar 44

Arogl casgenni sieri ac arddull lân bar a bwyty cyfoes. Mae’n gyfuniad deniadol, yr un modd â dehongliad modern Bar 44 o dapas Sbaenaidd. bar44.co.uk/cardiff

La Cuina

Bwyd blasus Catalanaidd go iawn. Sefydlodd y perchennog a’r cogydd Montserrat y bwyty yn 2012 ar ôl treulio 20 mlynedd yn dysgu Sbaeneg ym mhrifysgolion Bryste a Chaerdydd. lacuina.co.uk

Bunch of Grapes, Pontypridd

Taith fer yw hi mewn car o Gaerdydd i dafarn ym Mhontypridd, a adwaenir yn lleol fel ‘The Bunch’. Mae ansawdd a chysondeb y bwyd yn uchel ac fe enillodd wobr Cinio Dydd Sul Gorau Prydain yn ddiweddar. bunchofgrapes.org.uk

The Dead Canary

Awrygylch clwb yfed ble gallwch ymlacio, mwynhau’r coctels gorau yng Nghaerdydd ac ymlacio i gefndir o gerddoriaeth jazz melysbêr. thedeadcanary.co.uk

Milgi

Mae’r ddwy chwaer Gabrielle a Rebecca sy’n berchen ar Milgi’n darparu seigiau llysieuol sy’n llawn blas a dychymyg. Awrygylch nodweddiadol Fohemaidd sydd yma, gyda iyrty yn y cefn ble gallwch ymlacio. milgicardiff.com

Mae’n teimlo fel pe bai popeth dwi’n ei wneud yn troi o gwmpas bwyd, felly dwi’n tueddu i feddwl am Gaerdydd o ran ble i fwyta ac yfed. Mae’n ddinas gymdeithasol iawn, ac mae’n ymddangos fel pe bai pobl yn mwynhau cael profiadau sy’n wahanol i’r arfer.

Un o fy hoff fannau yw Patisserie Cocorico. Laurian sy’n ei redeg – daeth i Gymru i gefnogi Ffrainc yng Nghwpan Rygbi’r Byd 1999 a gwirioni ar y wlad. Os amserwch chi eich ymweliad â Chaerdydd yn iawn, efallai y cewch chi flas ar y Street Food Circus, marchnad bwyd stryd gyda’r nos *pop-up*, sy’n digwydd o bryd i’w gilydd. Mae’r bwyd yn wych a’r nawws yn arbennig iawn. Mae wir yn dangos anian annibynnol y ddinas. purplepoppadom.com

Anand George
Perchennog bwyty
Purple Poppadom,
Caerdydd



Porter’s

Gem dawel, prin herc cam a naid y tu hwnt i ardal bariau a bwytai canol y ddinas. Mae yma le da i gwrdd am goffi yn ystod y dydd a chartref adloniant bywiog ac amrywiol gyda’r nos, yn cynnwys theatr dafarn gyntaf Cymru. porterscardiff.com

James Sommerin, Penarth

Mae’r cogydd sy’n rhoi’i enw ar y bwyty hwn yn ddewin blasau (mae’n swnio’n amlwg, ond ar ôl bwyta yno, byddwch chi’n deall). Yr un mor wych yw’r lleoliad ar lan y môr ym Mhenarth, ychydig filltiroedd i’r gorllewin o Gaerdydd. Un o saith bwyty seren Michelin Cymru. jamesommerinrestaurant.co.uk

”
MAE GAN
GAERDYDD FWY
O ARDALOEDD
GWYRDD NA’R
UN DDINAS
FAWR ARALL
YN Y DU.

”

Aros
 Park Plaza Reit yng nghanol y ddinas, â’r Theatr Newydd yn gymydog. Taith fer sydd i’r siopau, Castell Caerdydd a Stadiwm Principality. parkplazacardiff.com
 Gwesty a Sba St David’s Dyma’r mwyaf trawiadol o westai Caerdydd, gyda’r to siâp hwyl a’r atriwm gwydr o’r llawr i’r to. Efallai y gwelwch Benedict Cumberbatch neu Peter Capaldi a’u tebyg, gan fod pentref drama’r BBC, Porth y Rhath, gerllaw. thestdavidshotel.com
 Cardiff Caravan & Camping Peth annisgwyl yw cael safle carafanio a gwersylla ynghanol dinas, ond mae Caerdydd yn bur wahanol i’r rhan fwyaf o ddinasoedd. Er mai prin hanner milltir (800m) o ganol y ddinas ydych chi, mae’r lleoliad hardd mewn parc yn teimlo fel dihanghfa. cardiffcaravanpark.co.uk
 NosDa Os ydych chi’n chwilio am le rhad i gysgu mewn amgylchedd glân a chyfforddus, â bar a lleoliad cerddoriaeth fyw, a chyffro canol y ddinas ar garreg y drws, yna dyna’n union gewch chi yn yr hostel gyfeillgar hon. nosda.co.uk
 Cathedral 73 Mae 73 Ffordd y Gadeirlan yn wahanol i dai llety eraill ar hyd yr heol goediog hon sy’n arwain at ganol y ddinas. Peidiwch â chymryd ein gair ni, gadewch iddyn nhw eich casglu o’r orsaf yn eu Rolls Royce melyn a dangos i chi drostynt eu hunain. cathedral73.com

Chwarae
 Castell Caerdydd Bu’r castell a welwch heddiw yn gadarnle Rhufeinig, yn gastell Normanaidd trawiadol ac yn balas ffantasi Gothig Fictoriaidd hynod. Ac roedd y Rhufeiniaid doeth yna’n ddigon hirben i’w leoli ynghanol y ddinas. castell-caerdydd.com
 Canolfan Mileniwm Cymru Dyma gampwaith pensaernïol a chartref Opera Cenedlaethol Cymru a Cherddorfa Genedlaethol Cymru’r BBC. Mae hefyd yn llwyfannu sioeau cerdd, comedi un dyn, arddangosfeydd celf ac mae’n fwrwm o egni, yn arbennig yn ystod gwyliau’r ysgol. wmc.org.uk
 Parc Bute Mae gan Gaerdydd fwy o ardaloedd gwyrdd y pen nag unrhyw un o’r naw dinas fawr arall yn y Deyrnas Unedig. Parc Bute yw ysgyfaint gwyrdd canol Caerdydd – mae’r 138 erw (56ha), yn cyfateb i 75 cae pêl-droed. Dyma un o’r parciau dinesig mwyaf yng Nghymru. bute-park.com
 Stadiwm Principality Un o adeiladau mwyaf eiconig Cymru, efallai mai dyma stadiwm chwaraeon mwyaf pleserus y byd, gyda lleoliad perffaith yng nghanol y ddinas ac awyrgylch trydanol o dan ei do llithr enfawr. principalitystadium.wales

 Bae Caerdydd Mae Bae Caerdydd yn ddatblygiad amrywiol ar y glannau a adeiladwyd o amgylch llyn dŵr croyw 494-erw (200ha). Mae’n llecyn gwych, yn llawn o bensaernïaeth ddramatig, gan gynnwys adeilad cain y Senedd, cartref Cynulliad Cenedlaethol Cymru, adeilad trawiadol Canolfan Mileniwm Cymru a’r Eglwys Norwyaidd hyfryd, ble arferai’r awdur Roald Dahl a’i deulu addoli. cardiffbay.co.uk
--



Canolfan y Mileniwm ac adeilad y Pierhead, Bae Caerdydd

Dyma ein hardaloedd gwyliau.

Rhannwyd Cymru’n 13 ardal benodol, pob un â’i chymeriad unigryw.



01 Ynys Môn

02 Llandudno a Bae Colwyn

03 Gogledd-ddwyrain Cymru

04 Eryri Mynyddoedd a Môr

05 Canolbarth Cymru fy Ffordd i

06 Ceredigion – Bae Ceredigion a Mynyddoedd Cambria

07 Sir Benfro – unig Barc Cenedlaethol Arfordirol Prydain

08 Sir Gaerfyrddin – Bae Caerfyrddin

09 Bae Abertawe – Abertawe, y Mwmbwls a Gŵyr

10 Y Cymoedd – Calon ac Enaid Cymru

11 Caerdydd – Prifddinas Cymru

12 Arfordir a Chefn Gwlad Treftadaeth Morgannwg

13 Dyffryn Gwy a Dyffryn Wysg

01—Ynys Môn

Mae Ynys Môn yn cynnig harddwch digymar, anturiaethau ardderchog, llonyddwch llwyr a chroeso cynnes. Mae’n hawdd mynd i’r ynys unigryw hon, ac mae’r arfordir, y traethau amrywiol a’r trefi hanesyddol yn golygu bod hwn yn lleoliad gwych i’r teulu oll. Does dim angen dweud eto wrth y rhai sydd wedi bod. Maen nhw’n dychwelyd...

+44 (0)1248 713 177

twristiaeth@ynysmon.gov.uk

croesomon.co.uk

facebook.com/visitanglesey

02—Llandudno a Bae Colwyn

Chwedlonol... ym mhob ystyr. Llandudno fywiog, y trysor glan môr Fictoraidd â hanes sy’n dechrau yn yr Oes Efydd. Safle Treftadaeth y Byd yng Nghonwy â’i hanes morwrol cyfoethog. Antur ar y glannau ym Mae Colwyn. Profiadau epic ynghanol golygfeydd aruthrol Dyffryn Conwy ac Eryri. Gwyliau gydol y flwyddyn, yn llawn o hwyl i’r teulu, bwyd da, teithiau cerdded rhagorol, theatr o safon ryngwladol, a chalendr yn llawn o ddigwyddiadau cyffrous.

+44 (0)1492 577 577

llandudnotic@conwy.gov.uk

visitllandudno.org.uk

facebook.com/VisitingLlandudno

Twitter: @visit_llandudno

03—Gogledd-ddwyrain Cymru

Lai nag 20 munud o Gaer, taith fer yw hi yma o ogledd-orllewin Lloegr a gorllewin canolbarth Lloegr. Cewch siopau prysur a digwyddiadau diwylliannol Wrecsam, rhyfeddodau bwyd Gŵyl Fwyd a Diod yr Wyddgrug ac Eisteddfod Ryngwladol enwog Llangollen. Mae’r ardal yn cynnwys y Rhyl, un o’r cyrchfannau glan môr enwocaf ym Mhrydain, ac Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy. Mae yma Safle Treftadaeth y Byd 11 milltir (18km) o hyd – Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte, a gallwch hefyd gerdded ar hyd llwybr hynafol Clawdd Offa sy’n mynd drwy’r Waun hyd at yr arfordir ym Mhrestatyn.

+44 (0)1978 292 015

tourism@wrexham.gov.uk

+44 (0) 1745 355 068

rhyltic@denbighshire.gov.uk

northeastwales.co.uk

04—Eryri Mynyddoedd a Môr

Dyma faes chwarae awyr agored sy’n cynnwys Parc Cenedlaethol Eryri, Pen Llŷn ac Arfordir Cambria. Llety, atyniadau a gweithgareddau o safon – cestyll, rheilffyrdd lein fach, golff, beicio, cerdded, traethau baner las, parciau gwledig, Llwybr Arfordir Cymru, Safle Treftadaeth y Byd, Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol ac Arfordir Treftadaeth.

twristiaeth@gwynedd.llyw.cymru

ymweldageryri.info

facebook.com/ymweldageryri

Twitter: @YmweldAgEryri

05—Canolbarth Cymru fy Ffordd i

Dyma faes chwarae awyr agored enfawr sy’n cynnwys Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Biosffer Dyfi, Mynyddoedd Cambria, Llyn Efyrynwy a Mynydd y Berwyn, a Gwlad Offa. Mae yma lwybrau cenedlaethol, teithiau cerdded heibio rhaeadrau a glannau afonydd; llwybrau beicio gwych, ac rydym ni’n falch o fod yn bartner yn ras y Tour of Britain. Yn y calendr digwyddiadau llawn mae’r Sioe Frenhinol, Gŵyl y Gelli, Gŵyl Gomedï Machynlleth, y Dyn Gwyrdd a Gregynog. Llety traddodiadol, trawiadol, clyd a moethus, heb sôn am siopau annibynnol ac orielau a bwyd lleol i dynnu dŵr i’r dannedd.

+44 (0)1874 622 485

tourism@powys.gov.uk

midwalesmyway.com

facebook.com/midwalesmyway

Twitter: @MidWalesMyWay

06—Ceredigion – Bae Ceredigion a Mynyddoedd Cambria

Treiddiwch i grombil hanes a chwedlau Ceredigion a phrofi hunaniaeth ddiwylliannol ffyniannus a chyfoes. Anturiwch yn nhirwedd eang drama deledu gyffrous *Y Gwyll*. Chwiliwch ein gwlad chwedlonol am Gantre’r Gwaelod, y diafol a’r Greal Sanctaidd. Taclwch llwybr arfordir Ceredigion, sy’n cynnwys dringo bryngaerau heriol a chrwydro’n hamddenol ar hyd y prom yn Aberystwyth. Ewch ar daith mewn cwch i wylïo dolffiniaid, daliwch don (a mecryll o bosibl) neu mwynhewch hwyl deuluol ar y Traethau Baner Las.

+44 (0)1970 612 125

croeso@ceredigion.gov.uk

darganfodceredigion.co.uk

facebook.com/discoverceredigion

Twitter: @visitceredigion

07—Sir Benfro – Unig Barc Cenedlaethol Arfordirol Prydain

Yn ôl arbenigwyr cylchgrawn y National Geographic dyma’r ail arfordir gorau yn y byd. Mae 186 milltir (299km) o arfordir hynod ac amrywiol a dros 50 o draethau, felly mae digon o le i bawb. Dewiswch fwrlwm Dinbych-y-pysgod a Saundersfoot neu lonyddwch Tyddewi a Threfdraeth. Perffaith ar gyfer gweithgareddau awyr agored neu ymlacio.

visitpembrokeshire.com

08—Sir Gaerfyrddin – Bae Caerfyrddin

Mae Sir Gaerfyrddin yn ymestyn o Fae Caerfyrddin yn y de i’r Bannau gorllewinol a Mynyddoedd Cambria yn y gogledd, gyda gerddi hynod, cestyll syfrdanol a thraeth hiraf Cymru, trefi marchnad yn byrlymu gyda chynnyrch lleol a siopa *chic*.

+44 (0)1267 231 557

twristiaeth@sirgar.gov.uk

darganfodsirgar.com

09—Bae Abertawe – Abertawe, y Mwmbwls a Gŵyr

Barod am wyliau chwedlonol?

Dewch i Ddinas Glan Môr Cymru ac Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol cyntaf y Deyrnas Unedig, Penrhyn Gŵyr. Ymlaciwch ar draethau rhagorol a darganfod cefn gwlad digyffwrdd – peidiwch ag anghofio eich bwrdd syrffio, eich beic a’ch esgidiau cerdded! Dewch am antur i’n cestyll, ein carneddau a’n hogofâu a chanfod y stori y tu ôl i’r olygfa. #BywChwedlau

dewchifaeabertawe.com

Twitter: @BaeAbertawe

10—Y Cymoedd – Calon ac Enaid Cymru

Cestyll sy’n geidwaid y chwedlau, arweinwyr diwydiannol a roddodd y Chwyldro Diwydiannol i’r byd, ac ymgyrchwyr cymdeithasol a newidiodd fywydau pawb – mewn lleoliadau trawiadol a golygfeydd i’ch syfrdanu. Mae pobl y Cymoedd yn ymfalchio yn eu treftadaeth, ac wrth eu bodd yn croesawu ymwelwyr a ddaw i brofi’r hanes, yr antur a’r croeso cynnes. Dewch i’r Cymoedd eleni i fwynhau Calon ac Enaid Cymru.

+44 (0)29 2088 0011

contactus@thevalleys.co.uk

thevalleys.co.uk

11—Caerdydd – Prifddinas Cymru

Mae gan brifddinas Cymru atyniadau unigryw, adloniant o’r radd flaenaf, detholiad eang o lety ar gyfer pob poded a siopau difyr o safon. Mae Castell Caerdydd, Stadiwm Principality, Amgueddfa Genedlaethol Cymru a Chanolfan Mileniwm Cymru ynghyd â Bae Caerdydd yn cyfuno i gynnig adloniant dan do ac awyr agored i bawb drwy’r flwyddyn.

+44 (0)29 2087 3573

ymwelydd@caerdydd.gov.uk

visitcardiff.com

12—Arfordir a Chefn Gwlad Treftadaeth Morgannwg

Gerllaw’r Arfordir Treftadaeth dramatig a chyrchfannau poblogaidd Ynys y Barri a Phorthcawl mae hyfrydwrch cefn gwlad a bryniau gwyrdd y Fro a Phen-y-bont. Dewch i brofi cymeriad arbennig ardal sy’n llawn o hanes – ac mae’n agos at Gaerdydd, prifddinas gosmopolitan Cymru.

+44 (0)1446 704 867

+44 (0)1656 815 332

tourism@valeofglamorgan.gov.uk

tourism@bridgend.gov.uk

visitthevale.com

bridgendbites.com

13—Dyffryn Gwy a Dyffryn Wysg

Golygfeydd gwych a bwyd a diod o safon ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Dyffryn Gwy. Ewch ar antur i gestyll, trefi Rhufeinig a gerddi hardd; yna mwynhewch winllannoedd sy’n ennill gwobrau, trefi marchnad prysur a thafarndai lleol gwych. Ac ynghyd â Gwyliau Bwyd Enwog Casnewydd a’r Fenni, bwytai mawr eu sôn a chynhyrchwyr crefftus, fe welwch yn hawdd pam mai dyma Galon Bwyd Cymru.

+44 (0)1291 623772

tourism@monmouthshire.gov.uk

visitmonmouthshire.com

Dysgwch fwy trwy droi at croeso.cymru/brochures i lawrlwytho cynifer o bamffledi ag y dymunwch neu i ddewis hyd at dri i gael eu hanfon atoch am ddim drwy’r post. Neu ffoniwch +44 (0)333 006 3001

Cyrraedd Cymru.

Os ydych chi'n dod o'r tu allan i'r wlad, mae hi'n hawdd cyrraedd Cymru mewn ychydig oriau ar y draffordd o Lundain. Ond mae'r trê'n hyd yn oed yn gynt – dim ond dwy awr o Lundain i Gaerdydd. Mae'r un yn wir am brif feysydd awyr Prydain gyda chysylltiadau ffordd a rheilffordd cyflym o Heathrow, Gatwick, Birmingham a Manceinion.



Ar y Ffordd

Milltiroedd ac amserau teithio mewn car:

- Birmingham – Aberystwyth**
123 milltir, 2 awr 44 munud
- Caerfaddon – Casnewydd**
42 milltir, 52 munud
- Caergaint – Caerdydd**
214 milltir, 3 awr 51 munud
- Coventry – Abermaw**
138 milltir, 2 awr 56 munud
- Caerwysg – Abertawe**
144 milltir, 2 awr 35 munud
- Leeds – Llandudno**
126 milltir, 2 awr 31 munud
- Llundain – Caerdydd**
151 milltir, 2 awr 53 munud
- Llundain – Dinbych-y-pysgod**
238 milltir, 4 awr 29 munud
- Manceinion – Caernarfon**
105 milltir, 2 awr 19 munud
- Nottingham – Abertawe**
204 milltir, 3 awr 41 munud
- Newcastle-upon-Tyne – Llandudno**
221 milltir, 4 awr 20 munud
- Reading – Caerfyrddin**
172 milltir, 3 awr 02 munud
- Efrog – Y Trallwng**
152 milltir, 3 awr 7 munud
- Caeredin – Caerdydd**
393 milltir, 7 awr 03 munud
- Glasgow – Aberystwyth**
331 milltir, 6 awr 04 munud

Milltiroedd / amserau wedi eu darparu gan [theaa.com](#)

Mae'r National Express yn darparu rhwydwaith genedlaethol o wasanaethau bws uniongyrchol rhwng prif drefi a dinasoedd Cymru, yn ogystal â phrif gyrchfannau'r Deyrnas Unedig. Edrychwch ar eu gwefan am gynigion arbennig. [nationalexpress.com](#)

Gallwch neidio ar unrhyw un o fyssiau rhwydwaith y National Express, ac oddi arno, â phàs Brit Xplorer. Gellir prynu pasiau ar-lein ar: [nationalexpress.com/waystosave/brit-xplorer.aspx](#)

Mae Megabus yn ffordd rad o deithio rhwng dinasoedd y Deyrnas Unedig, gyda byssiau yn rhedeg rhwng nifer o ddinasoedd mawr y Deyrnas Unedig a lleoliadau yng Nghymru. [uk.megabus.com](#)



Hedfan

Lleolir Maes Awyr Caerdydd ar gyrion y brifddinas. Gallwch hedfan oddi yno i Ynys Môn, ac mae gwasanaeth bws uniongyrchol i ganol Caerdydd. Am wybodaeth fanwl am hediadau a sut i gyrraedd y maes awyr ac oddi yno ar y ffordd, neu mewn trê'n, bws a thacsi, ewch i: [maesawyr-caerdydd.com](#)

Mae cwmnïau hedfan yn dod i feysydd awyr Llundain o bob cwr o'r byd, felly gwiriwch gyda'ch asiant teithio neu drefnwr taith beth yw'r dewis gorau i chi. Mae gan Birmingham, Manceinion a Lerpwl hefyd nifer o hediadau rhyngwladol, ac mae Maes Awyr Bryste'n gyfleus iawn ar gyfer taith i Gymru.

- Meysydd awyr yn y Deyrnas Unedig sy'n gyfleus iawn i Gymru:
- Maes Awyr Rhyngwladol Birmingham**
[birminghamairport.co.uk](#)
- Maes Awyr Bryste**
[bristolairport.co.uk](#)
- Maes Awyr Lerpwl John Lennon**
[liverpoolairport.com](#)
- Maes Awyr Gatwick Llundain**
[gatwickairport.com](#)
- Maes Awyr Llundain Heathrow**
[heathrowairport.com](#)
- Maes Awyr Llundain Luton**
[london-luton.co.uk](#)
- Maes Awyr Llundain Stansted**
[stanstedairport.com](#)
- Maes Awyr Manceinion**
[manchesterairport.co.uk](#)



Cwm Elan



Ar drên

Yn y Deyrnas Unedig, ceir gwasanaethau trê'n cyflym a rheolaidd rhwng gorsaf Paddington yn Llundain a Chaerdydd, sy'n cymryd ychydig dros ddwy awr. Mae trenau'n gadael Llundain bob hanner awr i Orsaf Ganolog Caerdydd, gyda'r gwasanaeth yn mynd ymlaen bob awr i Abertawe ac yna i Orllewin Cymru.

Daw trenau uniongyrchol hefyd o Euston yn Llundain a Manceinion i Landudno, Bangor a Chaergybi; o Firmingham, Amwythig a Crewe i arfordir Gogledd Cymru a Phen Llŷn; o Fanceinion ac Amwythig i Gasnewydd; ac o Portsmouth, Southampton a Salisbury i Gaerdydd.

O Faes Awyr Heathrow Llundain, mae yna wasanaeth trê'n cyflym, uniongyrchol i Paddington, ble gallwch newid i drê'n uniongyrchol i Gymru. O Faes Awyr Gatwick Llundain, gallwch deithio'n uniongyrchol i orsaf Victoria yn Llundain, ac yna cymryd y trê'n tanddaearol i Paddington neu Euston i barhau â'ch taith. Ar gyfer ymholiadau cyffredinol am y trenau, ewch i: [nationalrail.co.uk](#) [thetrainline.com](#)



Dros y môr

Croesiadau fferi o Iwerddon i Gymru:

- Irish Ferries:**
Porthladd Dulyn i Gaergybi
Amser teithio: 1 awr 49 munud (Fferi cyflym)
Amser teithio: 3 awr 15 munud (Fferi mordaith)
Rosslare i Ddoc Penfro
Amser teithio: 4 awr (Fferi mordaith)
[irishferries.com](#)

- Stena Line:**
Porthladd Dulyn i Gaergybi
Amser teithio: 3 awr 15 munud (Archfferi)
Dun Laoghaire i Gaergybi
Amser teithio: 2 awr 20 munud (Fastcraft)
Rosslare i Abergwaun
Amser teithio: 3 awr 30 munud (Archfferi)
[stenaline.co.uk](#)

- Croesiadau fferi o dir mawr Ewrop i Brydain:
- Brittany Ferries**
[brittany-ferries.co.uk](#)
- Condor Ferries**
[condorferries.co.uk](#)
- DFDS Seaways**
[dfdsseaways.co.uk](#)
- LD Lines**
[ldlines.co.uk](#)
- P&O**
[poferries.com](#)
- Stena Line**
[stenaline.com](#)

Llongau mordaith
Bydd llongau mordaith yn docio ym Mhorthladd Caergybi ar Ynys Môn bron bob wythnos rhwng Mai a Medi. Ymhlith y cwmnïau mordeithiau sy'n galw heibio mae Crystal, Hapag Lloyd, Oceania, P&O, Silversea, Swan Hellenic, Thomson, Tui, Voyages of Discovery a Windstar.

Am ragor o wybodaeth ar gyrraedd Cymru, ewch i'n gwefan: [croeso.cymru](#)

Teithio o amgylch Cymru.

Mae’n hawdd mynd o gwmpas Cymru ar drên, mewn bws, car neu hyd yn oed drwy hedfan. Ac os oes awydd darganfod arnoch chi, mae digon o deithiau ar gael sy’n brofiadau hyfryd ynddynt eu hunain. Mae rhai o’r ffyrdd, rheilffyrdd a llwybrau harddaf ym Mhrydain yma.



Ar y ffordd

Mae rhai o deithiau gyrru harddaf Cymru ymysg y gorau ym Mhrydain. Rhai ffefrynau sy’n cynnig golygfeydd aruthrol yw’r A466 ar hyd Dyffryn Gwy, y B4574 o Raeadr i Gwm Rheidol, yr A4069 dros y Mynydd Du, yr A4086, A498 ac A4085 o amgylch yr Wyddfa a Marine Drive o amgylch y Gogarth yn Llandudno.

Pan fyddwch chi’n crwydro’r Parciau Cenedlaethol, defnyddiwch y gwasanaethau bysiau gwennol a gynlluniwyd i leihau traffig: sir-benfro.gov.uk neu gwynedd.gov.uk

Mae National Express yn cynnig gwasanaeth bysiau dros bellter i nifer o drefi a phentrefi ledled Cymru. Am ragor o wybodaeth ac i gynllunio’ch taith, ewch i: nationalexpress.com

Mae Megabus yn cynnig gwasanaeth bysiau rhad rhwng Cwmbrân, Casnewydd, Caerdydd, Abertawe, Caerfyrddin a Doc Penfro. uk.megabus.com



Ar drên

Mae gwasanaethau trên yn rhedeg drwy ranbarthau Cymru – ar lwybrau hardd iawn fel arfer, megis llinellau Arfordir Cambria, Dyffryn Conwy a Chalon Cymru. thecambrianline.co.uk scenicwales.co.uk heart-of-wales.co.uk nationalrail.co.uk arrivatrainswales.co.uk

O ran pleser pur, beth am fynd am dro ar un o’r 14 rheilffordd lein fach a stêm? Mae nifer yn aelodau o gymdeithas Trenau Bach Cymru. greatlittletrainsofwales.co.uk

Gwybodaeth Ychwanegol

I gael yr wybodaeth fwyaf diweddar a dibynadwy am drafnidiaeth gyhoeddus: traveline-cymru.info I gael teclyn cynllunio taith hwylus: theaa.com neu rac.co.uk Am wybodaeth ar reoliadau gyrru yn y DU: gov.uk/browse/driving/highway-code




Teithio gostyngedig ar drên a bws

Mae Pàs Crwydro Cymru’n cynnig teithio diderfyn ar bob un o brif linellau rheilffordd Cymru a’r rhan fwyaf o’r gwasanaethau bws lleol. Gall deiliaid hefyd elwa ar ostyngiad ar bris mynediad i sawl atyniad twristiaid a llety dethol. Mae Pàs Crwydro Cymru (£99) yn gadael i chi deithio ar drenau am bedwar diwrnod ac ar fysiau am wyth niwrnod. Mae Pasiau Crwydro De Cymru, Gogledd Cymru a Chanolbarth Cymru (£69 yr un) yn gadael i chi deithio ar drenau am bedwar diwrnod ac ar fysiau am wyth niwrnod o fewn pob ardal ranbarthol.

Yn ogystal, ceir nifer o docynnau Crwydro (Rover a Ranger), sy’n gadael i chi deithio’n ddiderfyn ar y trên am un diwrnod mewn ardaloedd penodol ar rwydwaith trenau Arriva Cymru. Gellir eu prynu o swyddfa docynnau’r orsaf neu ar y trên. arrivatrainswales.co.uk/explorewalespass

Am ragor o wybodaeth ar deithio o amgylch Cymru, ewch i’n gwefan.



Llyn Gwynant, Eryri

Rhagor o wybodaeth
Am yr wybodaeth ddiweddaraf i’r eiliad am wyliau byr a gwyliau hirach yng Nghymru, ewch i’n gwefan swyddogol: croeso.cymru

Cwestiynau Cyffredin

Sut ydw i’n gwybod fy mod yn archebu llety o safon?
Wrth ddewis eich llety gwyliau, chwiliwch am nod ansawdd Cymru / Wales – cynllun asesu ansawdd swyddogol, cenedlaethol Cymru. Croeso Cymru a’r AA yw’r unig asiantau gwirio yng Nghymru, ac maen nhw’n gwirio dros 5,000 o lefydd. Mae’r ddau’n asesu llety yn erbyn yr un meini prawf ac yn dyfarnu rhwng un a phum seren, yn seiliedig ar y cyfleusterau ac ansawdd cyffredinol y profiad. Cadwch lygad hefyd am y mannau arbennig iawn hynny sydd wedi derbyn Gwobr Aur Croeso Cymru, a roddir am safonau lletygarwch, cysur a bwyd rhagorol mewn llety â gwasanaeth.

Am ragor o wybodaeth am lety yng Nghymru, cynllun Asesu Ansawdd Cymru / Wales, gwybodaeth gyffredinol am raddio a graddau seren, ewch i’n gwefan.

Ble alla i ddod o hyd i wybodaeth gwyliau ar gyfer pobl gydag anghenion arbennig?
Mae *Tourism for All* yn wasanaeth gwybodaeth arbenigol am ddim sy’n hyrwyddo twristiaeth hygrych. Mae’n cynnig canllaw am ddim ar gynllunio teithiau, trafnidiaeth, llety ac archebu. tourismforall.org.uk

Hoffwn i ddysgu rhagor o Gymraeg cyn i mi ymweld – ble ddylwn i gychwyn?
Cymerwch olwg ar y gwefannau canlynol i loywi’r hanfodion: bbc.co.uk/learnwelsh s4c.co.uk/dysgwyr saysomethingin.com/welsh

Os hoffech chi fynd ar gwrs Cymraeg yng Nghymru, mae Canolfan Iaith a Threftadaeth Nant Gwrtheyrn yn arbenigo mewn cyrsiau preswyl ar gyfer oedolion sy’n dysgu Cymraeg. nantgwrtheyrn.org

Ble alla i gael gwybodaeth leol i dwristiaid?
Un o’r ffyrdd hawsaf a chyflymaf o gael gwybodaeth leol yw trwy alw yn un o’n Canolfannau Croeso. Mae’r staff wedi derbyn hyfforddiant, ac mae ganddynt wybodaeth arbennig am yr ardal a byddent wrth eu bodd yn eich helpu i archebu llety, chwilio am lefydd i fwyta, pethau i’w gwneud, llwybrau i’w dilyn, digwyddiadau cenedlaethol a lleol a chael mapiau, canllawiau a llyfrau. Fel arfer, mae’r swyddfeydd ar agor rhwng 10.00 a 17.00. Am restr o Ganolfannau Croeso, ewch i’n gwefan.

Asiantwyr teithio a gweithredwyr teithiau yn y Deyrnas Unedig ac Iwerddon
I’w gwneud hi’n hawdd iawn i archebu gwyliau neu seibiant byr yng Nghymru, gallech ddefnyddio gweithredwr teithiau. Mae yna nifer o gwmnïau yn y Deyrnas Unedig ac Iwerddon sy’n cynnig gwyliau yng Nghymru. Yn aml mae ganddynt ddealltwriaeth arbenigol am deithiau penodol a gallant eich helpu i chwilio am y gwyliau priodol sy’n ateb eich anghenion. I weld pa gwmnïau sydd ar gael, ewch i’n gwefan.

Gwerthu Cymru i’ch cleientiaid
Os ydych chi’n gweithio yn y sectorau diwydiant teithiau hamdden neu dwristiaeth busnes, mae gennym wefan benodol i’ch helpu i werthu Cymru i’ch cleientiaid ac i wella’r teithiau i Gymru a gynigir gennych yn barod, neu i helpu cyflwyno Cymru i deithiau i’r Deyrnas Unedig am y tro cyntaf.

Mae popeth ar gael o lefydd gwych i ymweld â nhw, sut i gyrraedd, syniadau ar gyfer teithiau, chwiliadau am weithredwyr a lleoliadau a’r newyddion diweddaraf am gynnyrch ble gallwch ddewis diweddariadau rheolaidd. traveltrade.visitwales.com

Er ein bod wedi gwneud pob ymdrech i sicrhau cywirdeb y cyhoeddiad hwn, ni all Croeso Cymru dderbyn unrhyw atebolrwydd am unrhyw wallau, pethau anghywir neu bethau a hepgorwyd, nac am unrhyw fater sy’n codi mewn unrhyw fodd o ganlyniad i gyhoeddi’r wybodaeth. Gwirir pob gwefan a restrir ar adeg cyhoeddi’r cylchgrawn. Fodd bynnag, ni ellir dal Croeso Cymru’n atebol am unrhyw newid yng nghynnwys y gwefannau hyn. croesocymru.com

2017 yw Blwyddyn Chwedlau Cymru

Dathliad o hen hanes a meddwl modern.

Ar eich taith, efallai y dewch chi ar
draws cewri, beirdd, dewiniaid a draig
goch ffyrnig. Bydd rhai o'r cymeriadau
hyn yn filoedd o flynyddoedd oed.

Bydd eraill yn chwedlau newydd sydd
wrthi'n cael eu bathu. Gadewch iddyn
nhw fynd â chi ar daith epic.

